**Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

**Dyddiad:** **13 Ionawr 2016**

**Amser:** **9:30 - 11:30**

**Teitl:** **Papur tystiolaeth – Cyllideb Addysg a Sgiliau Ddrafft 2016-17**

## Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y cynigion Addysg a Sgiliau a amlinellwyd yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2016-17, a gyhoeddwyd ar 8 Rhagfyr 2015. Mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd penodol o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

## Cefndir

2. Mae'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2016-17 yn cynnwys cynllun blwyddyn ar gyfer buddsoddi yn y ddarpariaeth o addysg a sgiliau yng Nghymru. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r Prif Grŵp Gwariant arfaethedig ar gyfer Addysg a Sgiliau.

| | 2015-16<br>Llinell Sylfaen Ddiwygiedig y Gyllideb Atodol Gyntaf<br>£000 | Newidiadau ac ailflaenoriaethu'r gyllideb<br>£000 | 2016-17<br>Cyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|---|
| DEL Adnoddau | 1,579,609 | 1,201 | 1,580,810 |
| DEL Cyfalaf | 143,834 | 21,934 | 165,768 |
| CYFANSWM DEL | 1,723,443 | 23,135 | 1,746,578 |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 370,199 | 0 | 370,199 |
| **Cyfanswm y Prif Grŵp Gwariant** | **2,093,642** | **23,135** | **2,116,777** |

3. Adolygwyd ffigurau'r Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2015-16, gan dynnu unrhyw ddyraniadau untro fel rhan o'r gyllideb atodol honno neu gyllidebau blaenorol, er mwyn sicrhau y gellir gwneud cymhariaeth debyg at ei debyg rhwng cyllidebau 2015-16 a'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2016-17.

4. Mae'r tabl dilynol yn dangos y cysoniad rhwng y gyllideb Atodol Gyntaf a gyhoeddwyd ar gyfer 2015-16 a'r gyllideb llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer pob elfen o'r Prif Grŵp Gwariant.

| DEL Adnoddau | £000 |
|---|---|
| Cyllideb Atodol Gyntaf a gyhoeddwyd ar gyfer 2015-16 | 1,589,009 |
| Dyraniad o symiau canlyniadol Datganiad Hydref 2015 - Her Ysgolion Cymru | (3,500) |
| Dyraniad o symiau canlyniadol Datganiad Hydref 2014 - Adolygiad o raglen weithredu'r cwricwlwm | (2,000) |
| Dyraniad o symiau canlyniadol Datganiad Hydref 2014 - Prentisiaethau | (500) |
| Dyraniad o symiau canlyniadol Datganiad Blynyddol 2014 - Prosiect Sgiliau Hyblyg | (2,400) |
| Cyfraniad cynyddol i'r Fenter Benthyca Llywodraeth Leol | (1,000) |
| **Llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2015-16** | **1,579,609** |
| **DEL Cyfalaf** | |
| Cyllideb Atodol Gyntaf a gyhoeddwyd ar gyfer 2015-16 | 173,834 |
| Dyraniad o gronfeydd cyfalaf a gedwir yn ganolog i gyflymu'r broses o gyflwyno Rhaglen Gyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2014-15. | (30,000) |
| **Llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2015-16** | **143,834** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | |
| Cyllideb Atodol Gyntaf a gyhoeddwyd ar gyfer 2015-16 | 338,804 |
| Addasiad i gyd-fynd â'r rhagolygon a gyflwynwyd i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Medi 2015 ar gyfer benthyciadau myfyrwyr | 31,395 |
| **Llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2015-16** | **370,199** |

5. O gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2015-16, mae cyfanswm y dyraniad DEL Adnoddau ar gyfer Addysg a Sgiliau wedi cynyddu £1.201m (1.1%). Nodir y symudiadau yn fanwl o dan y Camau Gweithredu perthnasol isod. Yn gryno, mae'r symudiadau fel a ganlyn :

| | £000 |
|---|---|
| Her Ysgolion Cymru - trosglwyddo o'r Cronfeydd wrth Gefn er mwyn codi'r cyfanswm sydd ar gael i £15m. | 2,900 |
| Cytundeb Cyllideb 2015-16 - Grant Amddifadedd Disgyblion drwy gynyddu'r grant i £1,150 y disgybl. | 7,200 |
| Dyraniad ychwanegol o'r cronfeydd wrth gefn er mwyn rhoi cyllid gwastad yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau i ysgolion | 2,000 |
| Cytundeb Cyllideb 2015-16 - Prentisiaethau | 5,000 |
| Dyraniad ychwanegol o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer Prentisiaethau | 5,000 |
| Swm net wedi'i drosglwyddo'n ôl i'r Cronfeydd wrth gefn | (20,899) |
| **DEL Adnoddau - cynnydd net** | **1,201** |

6. Ceir cynnydd o linell sylfaen ddiwygiedig 2015-16 o £12.934m ar gyfer y gyllideb gyfalaf ar gyfer prosiectau addysg penodol pellach ac i roi hwb i Raglen Gyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif.

7. Mae'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn ymwneud yn bennaf â benthyciadau myfyrwyr a arweinir gan alw ac sy'n sensitif i gyfraddau llog a ffactorau macroeconomaidd eraill ac felly yn anodd ei rhagweld. Cytunir ar y gyllideb hon â'r Trysorlys bob blwyddyn a chaiff ei chyllido'n llawn. Mae'r gyllideb yn cynyddu £31.935m fel rhan o'r addasiad i'r llinell sylfaen ddiwygiedig.

8. Cyhoeddwyd cynlluniau cyllideb lefel y camau gweithredu ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau ar 8 Rhagfyr. Er mwyn sicrhau mwy o dryloywder, ceir dadansoddiad o'r newidiadau i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb yn Atodiad 1. Yn unol â chais y Pwyllgor, mae Atodiad 1 hefyd yn cynnwys manylion ar ddyraniadau 2015-16 (fel yn y Gyllideb Atodol Gyntaf ym mis Mehefin 2015), llinellau sylfaen atodol diwygiedig, alldroeon rhagamcanol 2015-16 ac alldroeon terfynol 2014-15.

**Cyd-destun y Gyllideb - Blaenoriaethau**

9. Pennwyd y gyllideb hon eto yng nghyd-destun y cyfyngiadau a osodwyd gan Lywodraeth y DU mewn adolygiadau diweddar o wariant, ynghyd â blaenoriaethu cyllid mewn portffolios a rhyngddynt, tra'n cyflawni'r ymrwymiadau sy'n weddill a wnaed yn y Rhaglen Lywodraethu a chyflwyno rhaglen ddeddfwriaethol uchelgeisiol. Mae'r holl benderfyniadau a wynebwn yn anodd. Nid oes unrhyw atebion hawdd ac nid oes unrhyw fodd i ni amddiffyn gwasanaethau rhag effaith y toriadau a wnaed gan Lywodraeth y DU a goblygiadau blaenoriaethu gwariant.

10. Gan adeiladu ar waith a wnaed ar gyfer cyllidebau blaenorol, rydym wedi cynnal adolygiad parhaus llinell wrth linell o gyllidebau er mwyn nodi sut y gellir rheoli gostyngiadau pellach tra'n parhau i adlewyrchu ein blaenoriaethau. Er i ni orfod gwneud penderfyniadau anodd, mae ein blaenoriaethau ar gyfer addysg yng Nghymru wedi aros yr un fath ac mae ein cynlluniau gwariant a gyhoeddwyd yn adlewyrchu hyn.

11. Mae *Cymwys am Oes - Cynllun Gwella Addysg i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2014, yn nodi ein gweledigaeth a'n nod ar gyfer addysg hyd at 2020. Mae'n cynnwys pedwar amcan strategol a chamau gweithredu cysylltiedig a fydd yn sicrhau ein bod yn parhau ar ein taith i wella. Yn sail i'r amcanion strategol hyn ac yn rhan annatod o bob un ohonynt mae ein blaenoriaethau o wella llythrennedd a rhifedd a thorri'r cysylltiad rhwng anfantais a chyrhaeddiad addysgol.

12. Cyhoeddwyd *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru* gan yr Athro Graham Donaldson ym mis Chwefror 2015. Derbyniwyd pob un o'r 68 o argymhellion ac mae ein cynllun *'Cwricwlwm i Gymru - cwricwlwm am oes'* yn nodi'r camau a gymerir drwy

weithio â'r proffesiwn addysg, er mwyn cynllunio a datblygu'r cwricwlwm newydd erbyn 2018 i'w addysgu o 2021.

13. Mae'r *Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg* yn rhan hanfodol o hyn ac mae'n rhoi'r cyfle i athrawon fanteisio ar ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel ar bob cam o'u gyrfa, a ddatblygwyd gan ystyried gofynion y cwricwlwm newydd. Mae hefyd yn hanfodol bod gan athrawon newydd y sgiliau priodol i gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Mae adroddiad yr Athro Furlong yn *Teaching Tomorrow's Teachers* yn nodi goblygiadau'r cwricwlwm newydd o ran hyfforddiant cychwynnol athrawon.

14. Bydd hon yn broses gydweithredol a fydd yn cynnwys y proffesiwn addysgu, Estyn, awdurdodau lleol, academyddion, rhieni/gofalwyr, busnesau ac amrywiaeth eang o randdeiliaid, arbenigwyr a grwpiau eraill. Caiff y broses ei goruchwylio gan y Grŵp Cynghori Annibynnol sy'n cynnwys cyfoeth o brofiad a dealltwriaeth o bob rhan o'r sector addysg.

15. Byddwn yn parhau i adolygu'r ffrydiau cyllido sy'n mynd i gonsortia, awdurdodau lleol ac ysgolion a, lle y bo'n bosibl, byddwn yn parhau i resymoli'r cyllid hwn, er enghraifft, trosglwyddwyd gwerth £1m o gymorth ar gyfer gweithredu'r rhaglenni llythrennedd a rhifedd i'r Grant Gwella Addysg eleni.

16. Rydym yn parhau i gyflwyno *Ailysgrifennu’r dyfodol: codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru*, er mwyn mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol i sicrhau y gall pob plentyn yng Nghymru gyflawni ei lawn botensial ni waeth beth fo'i gefndir teuluol neu incwm ei rieni. Bydd y Gyllideb Ddrafft hon yn helpu i gyflawni'r agenda hon, drwy'r £7.2m ychwanegol a sicrhawyd fel rhan o Gytundeb Cyllideb 2015-16, er mwyn rhoi hwb i'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Mae'r bwlch mewn cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 2 rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys yn lleihau o hyd, ond mae buddsoddiad yn hanfodol er mwyn gwneud gwelliannau parhaus.

17. Cyhoeddwyd Her Ysgolion Cymru yn wreiddiol fel rhaglen dwy flynedd ac mae yn ei hail flwyddyn academaidd ar hyn o bryd. Mae ymchwil ryngwladol yn awgrymu bod diwygiadau cynaliadwy ar lefel system yn cymryd nifer o flynyddoedd. Felly, rydym yn parhau â'r rhaglen fel rhan o'r gyllideb hon, gyda £2.9m ychwanegol o gronfeydd wrth gefn i ychwanegu at y £12.1m a drosglwyddwyd yn 2015-16. Byddwn yn parhau i ystyried p'un a allai ysgolion Her Ysgolion Cymru elwa ar fuddsoddiad cyfalaf. Mae'r gostyngiad bach mewn cyllid, o gymharu â'r hyn a wariwyd mewn blynyddoedd blaenorol, yn adlewyrchu'r broses o ddatblygu'r rhaglen, bod ysgolion wedi cyrraedd cam gwahanol yn eu datblygiad bellach a bod anghenion cymorth yn newid. Bydd cyllid lefel ysgol yn parhau i fod yn seiliedig ar anghenion ysgolion unigol.

18. Mae blwyddyn ychwanegol yn rhoi cyfle estynedig i atgyfnerthu'r hyn a ddysgwyd o'r rhaglen er mwyn gwella ysgolion ymhellach ac yn cydnabod mai megis dechrau ar eu taith i welliant y mae rhai o'n hysgolion.

19. Er mwyn cydnabod pwysigrwydd addysg ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran cyflogaeth a sgiliau, rydym yn diogelu'r gyllideb a ddarparwyd ar gyfer addysg ôl-16 yn 2016-17 o ostyngiadau arian parod, sy'n cynnwys Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith (nid Addysg Uwch). Hefyd, fel rhan o gytundeb cyllideb 2015-16 a'r blaenoriaethau ar gyfer 2016-17, mae £10m o gyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu ar gyfer Prentisiaethau drwy ein rhwydwaith dysgu seiliedig ar waith. Mae'r cynlluniau ar gyfer prentisiaethau yn cynnwys ymgyrch benodol i gynyddu nifer y bobl ifanc 16 i 18 oed sy'n manteisio ar brentisiaethau, mwy o bwyslais ar brentisiaethau mwy medrus, yn arbennig yn y sector Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) a chysylltiadau gwell rhwng rhaglenni Addysg Bellach a Phrentisiaethau.

20. O ystyried y pwysau ariannol cynyddol, gwnaethom gomisiynu'r Athro Ian Diamond i gynnal adolygiad annibynnol o drefniadau cyllido addysg uwch a threfniadau cyllid myfyrwyr yn 2014. Un o flaenoriaethau allweddol yr adolygiad yw ystyried cynaliadwyedd ariannol hirdymor y system Addysg Uwch. Caiff canfyddiadau'r adolygiad hwn eu cyhoeddi yn 2016 a byddant yn helpu i lywio'r camau nesaf ar gyfer trefniadau cyllido addysg uwch yng Nghymru. Yn y cyfamser, rydym yn dyrannu £10m ychwanegol er mwyn cydnabod y pwysau ar gymorth myfyrwyr ar gyfer 2016-17. Bydd hyn yn ein galluogi i gyflawni ein hymrwymiad o ran ffioedd dysgu yn barhaus.

**Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu**

21. Wrth baratoi ar gyfer cyfyngiadau ariannol yn y dyfodol, rydym wedi ceisio targedu buddsoddiad er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau gwario yn parhau i ganolbwyntio ar ein prif flaenoriaethau, sef: iechyd a gwasanaethau iechyd; twf a swyddi; cyrhaeddiad addysgol; a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig. Mae'r portffolio Addysg a Sgiliau yn cyfrannu at bob un o'r rhain, ond yn bennaf, o ran gwariant uniongyrchol, at y tair olaf.

22. Er gwaethaf yr heriau sy'n gysylltiedig ag amseriad hwyr Adolygiad Llywodraeth y DU o Wariant, rydym wedi defnyddio'r broses o gynllunio ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2016-17 fel cyfle i edrych i'r dyfodol er mwyn targedu buddsoddiad mewn canlyniadau cynaliadwy a mabwysiadu'r pum ffordd allweddol o weithio a nodwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Ddeddf yn rhoi diben cyffredin i gyrff cyhoeddus drwy bennu saith nod llesiant i Gymru, ac mae'r pum ffordd o weithio yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn arddel safbwynt hirdymor wrth wneud penderfyniadau; eu bod yn ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd er mwyn atal problemau rhag codi yn y dyfodol neu atal problemau presennol rhag gwaethygu; eu bod yn mabwysiadu dull integredig a chydweithredol o wneud penderfyniadau; a'u bod yn cynnwys defnyddwyr yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau.

23. Mae saith amcan strategol ar gyfer datblygu a gweithredu polisïau Addysg a Sgiliau, sy'n cyd-fynd â'n gwariant. Cefnogodd yr amcanion hyn y broses o gyflawni canlyniadau yn y Rhaglen Lywodraethu a chânt eu cario drosodd i

2016-17, er mwyn cefnogi unrhyw ymrwymiadau sy'n weddill a symud tuag at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yr amcanion yw:

- Gweithlu proffesiynol ardderchog ag addysgeg gadarn yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio.
- Cwricwlwm sy'n ddiddorol ac yn ddeniadol i blant a phobl ifanc ac sy'n datblygu gallu annibynnol ynddynt i gymhwyso dealltwriaeth a sgiliau.
- Y cymwysterau a enillir gan bobl ifanc yn cael eu parchu'n genedlaethol ac yn rhyngwladol ac yn gweithredu fel pasbort credadwy ar gyfer addysg a chyflogaeth yn y dyfodol.
- Arweinwyr addysg ar bob lefel yn cydweithio fel rhan o system sy'n gwella ei hun, gan helpu a herio ei gilydd er mwyn codi safonau ym mhob ysgol
- Sicrhau gweithlu medrus a chyflogadwy i ysgogi arloesedd a thwf economaidd ar lefel leol a chenedlaethol, gyda chyfleoedd o ansawdd a gwerth uchel i bob dysgwr
- Helpu unigolion, teuluoedd a chymunedau i wella llesiant economaidd a chymdeithasol a lleihau anghydraddoldeb drwy addysg a hyfforddiant
- Gweld yr iaith Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru

24. Mae'r Adroddiad Blynyddol olaf ar y Rhaglen Lywodraethu, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2015, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses o gyflawni ein hymrwymiadau a'n cynnydd yn erbyn mesurau perfformiad. Mae'r mesurau perfformiad a amlinellir yn y cynllun Cymwys am Oes a chynlluniau strategol eraill yn adlewyrchu i raddau helaeth ddangosyddion a nodwyd yn y Rhaglen Lywodraethu a dyma sut rydym yn parhau i fonitro ein canlyniadau.

25. Cwblhawyd rhagor o ymrwymiadau yn 2015-16 ac mae'r broses o weithredu Dyfodol Llwyddiannus a'r Fargen Newydd yn adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd eisoes. Dim ond llond llaw o ymrwymiadau sydd ar ôl i'w cyflawni yn 2016-17 ac mae'r cyllid cysylltiedig sy'n ofynnol wedi'i gynnwys yn y gyllideb hon fel a ganlyn:

| Ymrwymiad | Disgrifiad | Cyllid |
|---|---|---|
| 3/006 | Drwy Raglen Gyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif, byddwn yn sicrhau darpariaeth TGCh o'r radd flaenaf. | Mae Band A Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn parhau a chaiff ei gyllido o Linell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cyfalaf Buddsoddi Strategol. |
| 3/011 | Drwy werthfawrogi'r sefydlogrwydd a'r tegwch a ddaw drwy fargeinio cyflogau yn genedlaethol, byddwn yn gwneud popeth y gallwn ei wneud i ddiogelu’r cysylltiad rhwng cyflogau ac amodau athrawon yng Nghymru â rhai eu cydweithwyr | Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod â Llywodraeth y DU ynghylch yr elfennau o Fil Cymru sy'n ymwneud â datganoli cyflogau ac amodau i athrawon. Mae'r gyllideb wedi'i chynnwys yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygiad a Chymorth Athrawon i |

| Ymrwymiad | Disgrifiad | Cyllid |
|---|---|---|
| | mewn rhannau eraill o'r DU. | gyllido unrhyw waith paratoi a fydd yn ofynnol yn ystod 2016-17. |
| 3/030 | Parhau â'n cefnogaeth ar gyfer datblygu dysgu oedolion a'r gymuned. | Rydym yn adolygu darpariaeth Coleg Cymunedol WEA YMCA Cymru sydd newydd uno. Caiff polisi diwygiedig ar addysg oedolion ei gyhoeddi yn 2016. Mae'r cyllid ar gyfer y maes gwaith hwn o fewn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Darpariaeth Addysg Bellach. |
| 3/048 | Diwygio'r broses Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed naill ai yn yr ysgol neu mewn lleoliad Addysg Bellach (AB). | Gweler yr adran ar ddeddfwriaeth isod. |

26. Ceir crynodeb o'r newidiadau i'r gyllideb ddrafft sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn isod, yn ôl Cam Gweithredu, ynghyd â chostau a'r effaith gysylltiedig ar unrhyw rai o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu sy'n weddill.

***Cam Gweithredu Llythrennedd a Rhifedd***

| 2015-16<br>Llinell Sylfaen Ddiwygiedig y Gyllideb Atodol Gyntaf<br>£000 | Newidiadau ac ailflaenoriaethu'r gyllideb<br>£000 | 2016-17<br>Cyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|
| 4,512 | (56) | 4,456 |

27. Mae'r gyllideb yn ariannu amrywiaeth o ymyriadau i gefnogi'r agenda o wella sgiliau llythrennedd a rhifedd plant a phobl ifanc. Mae'r gyllideb yn gostwng £56k yn 2015-16 o gymharu â'r llinell sylfaen. Mae hyn o ganlyniad i ddau symudiad cywirol, sef cynyddu'r cymorth ar gyfer datblygu'r profion llythrennedd a rhifedd a lleihau lefel y gwaith prosiect penodol wrth i ymyrraeth llythrennedd a rhifedd gael ei hymgorffori.

28. Mae'r cyllid o fewn y Cam Gweithredu hwn yn cefnogi'r fframweithiau Llythrennedd a Rhifedd yn benodol, fodd bynnag, caiff llythrennedd a rhifedd eu hymgorffori ar draws y broses o weithredu polisïau addysg.

29. Rhoddir blaenoriaeth i lythrennedd a rhifedd yng nghylch gwaith y Grant Gwella Addysg i ysgolion, ac mae'n ychwanegu'n sylweddol at y cymorth a gynigir ar gyfer y sgiliau hyn mewn ysgolion. Hefyd, fel y nodir uchod, mae'r broses o weithredu'r cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru, y Fargen Newydd ar gyfer y proffesiwn addysgu a'r broses o weithredu 'Addysg Athrawon Yfory' i gyd yn canolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd. Mae Her Ysgolion Cymru yn ddull o gyflymu'r broses o weithredu polisïau gwella ysgolion Llywodraeth Cymru ac o ganolbwyntio arnynt, ac mae llythrennedd a rhifedd yn ffocws allweddol ar gyfer y rhaglen.

***Cam Gweithredu'r Cwricwlwm***

| 2015-16 Llinell Sylfaen Ddiwygiedig y Gyllideb Atodol Gyntaf £000 | Newidiadau ac ailflaenoriaethu'r gyllideb £000 | 2016-17 Cyllideb Ddrafft £000 |
|---|---|---|
| 27,906 | 4,644 | 32,550 |

30. Mae'r gyllideb yn cynyddu £4.6m o gymharu â'r llinell sylfaen. Mae'r cam gweithredu hwn yn cynnwys y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (gwaith polisi, mae'r cyllid cyflawni bellach wedi'i gynnwys o fewn y grant Gwella Addysg o fewn y Cam Gweithredu Safonau Addysg), y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Cwricwlwm ac Asesu a'r Llinell Wariant newydd yn y Gyllideb ar gyfer Adolygu'r Cwricwlwm a Her Ysgolion Cymru.

31. Mae'r cynnydd yn cynnwys y £2.9m ychwanegol i Her Ysgolion Cymru sy'n codi cyfanswm y gyllideb ar gyfer 2016-17 i £15m. Hefyd, dyrannwyd £4.4m i godi'r cyfanswm ar gyfer gweithredu Cwricwlwm i Gymru, Cwricwlwm am Oes yn 2016-17 i £5.4m. Bydd y rhan fwyaf o'r cyllid yn cefnogi Ysgolion Arloesi'r Cwricwlwm ac Ysgolion Arloesi Digidol ac arbenigedd cenedlaethol a rhyngwladol arall i gynllunio a datblygu'r cwricwlwm newydd.

32. Trosglwyddwyd £1.0m i'r grant Gwella Addysg i atgyfnerthu'r cyllid i'r Consortia, ar gyfer cymorth llythrennedd a rhifedd cydgysylltiedig.

33. O fewn yr hinsawdd cyllido bresennol, mae'n rhaid i ni flaenoriaethu cyllid ar feysydd lle y gall yr ymyriadau wneud y gwahaniaeth mwyaf i'r canlyniadau ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru. Wrth i ni symud ymlaen â'r cwricwlwm newydd, rydym am ymgorffori meysydd sydd wedi'u cyllido'n benodol yn flaenorol, fel ymarfer corff a gwyddoniaeth, gan ein galluogi i ddirwyn rhai o'r prosiectau hyn i ben. Mae'r prosiectau hyn wedi rhedeg ers nifer o flynyddoedd ac mae eu hegwyddorion a'u buddiannau wedi cael eu cydnabod a'u hymgorffori mewn ysgolion a byddant yn parhau i effeithio'n gadarnhaol ar blant a phobl ifanc. Mae hyn wedi ein galluogi i ailgyfeirio cyllid o £2m.

***Cam Gweithredu Addysgu ac Arweinyddiaeth***

| 2015-16 Llinell Sylfaen Ddiwygiedig y Gyllideb Atodol Gyntaf £000 | Newidiadau ac ailflaenoriaethu'r gyllideb £000 | 2016-17 Cyllideb Ddrafft £000 |
|---|---|---|
| 15,956 | 5,265 | 21,221 |

34. Mae'r cam gweithredu hwn yn cynnwys y cyllid ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon proffesiynol. Trosglwyddwyd £5.65m ychwanegol i'r Cam Gweithredu ar gyfer Ysgolion Arloesi'r Fargen Newydd. Bydd yr ysgolion hyn yn ffurfio rhwydwaith

o Ysgolion Arloesi ag Ysgolion Arloesi'r Cwricwlwm ac Ysgolion Arloesi Digidol ac yn gweithio mewn partneriaeth â Chonsortia.

35. Bydd ysgolion y Fargen Newydd yn arwain y gwaith o ddatblygu a chyflawni dysgu proffesiynol er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn meddu ar sgiliau addysgeg ac arweinyddiaeth i allu cyflawni'r argymhellion a nodir yn Dyfodol Llwyddiannus.

36. Lansiwyd cam cyntaf Pasbort Dysgu Proffesiynol y Cyngor Gweithlu Addysg ym mis Medi 2015, gan roi cymorth i ymarferwyr adlewyrchu eu hanghenion dysgu proffesiynol a hwyluso datblygiad eu gyrfa. Mae Llywodraeth Cymru a Chonsortia wedi bod yn cydweithio er mwyn nodi cyfleoedd dysgu proffesiynol effeithiol sydd ar gael ledled Cymru fel y gallwn symud yn gyflym i sefydlu fframwaith cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol o ansawdd uchel.

***Cam Gweithredu Cymwysterau***

| 2015-16<br>Llinell Sylfaen Ddiwygiedig y Gyllideb Atodol Gyntaf<br>£000 | Newidiadau ac ailflaenoriaethu'r gyllideb<br>£000 | 2016-17<br>Cyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|
| 7,903 | 266 | 8,169 |

37. Mae'r cam gweithredu hwn yn ariannu Cymwysterau Cymru a sefydlwyd ym mis Medi 2015. Prif nodau'r sefydliad yw sicrhau bod cymwysterau, a'r system gymwysterau yng Nghymru, yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru; ac ennyn hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru.

38. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer costau rhedeg, gyda'r gweddill ar gyfer y gwaith ymchwil a datblygu y mae'r corff yn ei wneud i ategu ei waith fel rheoleiddiwr.

39. Bydd y gyllideb yn sicrhau, drwy gydweithio â phartneriaid, y gall Cymwysterau Cymru ddarparu cymwysterau ansawdd uchel a werthfawrogir, a fydd yn cynnwys cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch diwygiedig a Bagloriaeth Cymru newydd sy'n fwy trwyadl.

***Cam Gweithredu Addysg ôl-16***

| 2015-16<br>Llinell Sylfaen Ddiwygiedig y Gyllideb Atodol Gyntaf<br>£000 | Newidiadau ac ailflaenoriaethu'r gyllideb<br>£000 | 2016-17<br>Cyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|
| 507,551 | 5,000 | 512,551 |

40. Mae'r cam gweithredu hwn yn cynnwys cyllid ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth awdurdodau lleol, darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned, cymorth ar gyfer darpariaeth mewn Sefydliadau Addysg Bellach, cymorth ar gyfer prosiectau a gweithgareddau gwella ansawdd a buddsoddiad i gyflwyno cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith o ansawdd uchel.

41. Caiff £5m ychwanegol ei ddyrannu i brentisiaethau fel y nodwyd i gyfrannu at y blaenoriaethau o atgyfnerthu'r broses o ddarparu sgiliau lefel uwch a chynyddu nifer y bobl ifanc 16 - 18 oed sy'n manteisio ar brentisiaethau.

42. Rydym wedi cydnabod y cyfraniad at arbed costau y mae'r sector addysg bellach wedi'i wneud dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yn cynnwys y trawsnewidiad helaeth a wnaed. Felly, rydym yn diogelu cyllidebau addysg bellach fel arian gwastad.

43. Drwy'r penderfyniad hwn, rydym wedi cydnabod yr effeithiau ar drechu tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol ac yn ymrwymedig i gyflawni ein huchelgais o sicrhau bod cymaint o ddysgwyr â phosibl yn gallu cael y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer y gweithle.

***Cam Gweithredu Addysg Uwch***

| **2015-16**<br>**Llinell Sylfaen Ddiwygiedig y Gyllideb Atodol Gyntaf**<br>**£000** | **Newidiadau ac ailflaenoriaethu'r gyllideb**<br>**£000** | **2016-17**<br>**Cyllideb Ddrafft**<br>**£000** |
|---|---|---|
| 129,160 | (41,377) | 87,763 |

44. Mae'r gyllideb ar gyfer Camau Gweithredu Addysg Uwch wedi gostwng £41.377m o gymharu â'r gyllideb llinell sylfaen ar gyfer 2015-16, sy'n cynnwys tair elfen.

45. I ddechrau, trosglwyddwyd £21.1m i'r Cam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16 ar gyfer elfen derfynol y broses o drosglwyddo'r grant ffioedd dysgu. Symudodd y cyfrifoldeb a'r adnoddau cysylltiedig ar gyfer talu'r grant ffioedd dysgu i fyfyrwyr, drwy'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, o CCAUC i Lywodraeth Cymru yn 2015-16. Trosglwyddwyd y rhan fwyaf o'r cyllid yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2015-16.

46. Fodd bynnag, oherwydd y ffaith bod carfan arall o fyfyrwyr wedi cael eu cynnwys (y rhai sy'n astudio cyrsiau sy'n hwy na phedair blynedd), mae cynnydd yn nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n mynd i'r brifysgol a lefel ffioedd gyfartalog sy'n cynyddu yn golygu y caiff swm ychwanegol ei drosglwyddo o CCAUC i Lywodraeth Cymru. Mae'r cynnydd hwn yn unol â disgwyliadau ac o fewn ffiniau costau amcangyfrifedig y grant ffioedd dysgu. Byddai'r gwariant ychwanegol hwn wedi cael ei frigdorri o gyllidebau CCAUC ni waeth pwy sy'n gyfrifol am dalu'r grant ffioedd dysgu.

47. Mae'r ail elfen yn ostyngiad o £20m i gyllidebau rhaglen CCAUC, sy'n rhoi cyllid ar gyfer gweithredu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Yn y gorffennol, cafodd hwn ei ddyrannu gan CCAUC i ariannu Ymchwil o Ansawdd, cyrsiau rhan amser, pynciau drud, y Coleg Cenedlaethol a Phrifysgol Blaenau'r Cymoedd (sydd wedi'u prif ffrydio bellach). Yn y pen draw, CCAUC sy'n gyfrifol am benderfynu sut mae'n dyrannu ei adnoddau yn unol â blaenoriaethau Gweinidogol a gaiff eu hamlinellu mewn llythyr cylch gwaith gweinidogol a gyhoeddir ar ddechrau 2016.

48. Yr elfen olaf yw gostyngiad o £0.277m i gostau rhedeg CCAUC. Mae CCAUC wedi cael ei ddiogelu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf rhag unrhyw ostyngiad yn y gyllideb costau rhedeg oherwydd natur newidiol ei ddiben, o gorff cyllido i oruchwylio'r fframwaith rheoleiddio newydd a gyflwynwyd yn Neddf Addysg Uwch (Cymru) 2015. Gan fod y cyfnod trosiannol i weithredu'r fframwaith yn llawn yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18 bellach wedi dechrau, mae CCAUC mewn sefyllfa i wneud yr arbedion effeithlonrwydd a welwyd ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus mewn blynyddoedd blaenorol.

***Cam Gweithredu Safonau Addysg***

| 2015-16 Llinell Sylfaen Ddiwygiedig y Gyllideb Atodol Gyntaf £000 | Newidiadau ac ailflaenoriaethu'r gyllideb £000 | 2016-17 Cyllideb Ddrafft £000 |
|---|---|---|
| 144,123 | (6,594) | 137,529 |

49. Mae'r gyllideb yn gostwng £6.594m o'r llinell sylfaen ar gyfer 2016-17. Mae hyn yn net o £1.0m a drosglwyddwyd o Gam Gweithredu'r Cwricwlwm i helpu i weithredu'r rhaglenni llythrennedd a rhifedd drwy'r grant Gwella Addysg a gostyngiad o £7.539m i'r grant.

50. Mae'r grant Gwella Addysg yn cyfrif am brif gyfran y Cam Gweithredu hwn a dyma'r prif gyllid grant sydd ar gael i ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia er mwyn sicrhau gwelliannau ym mherfformiad ysgolion. Fe'i cyflwynwyd ym mis Ebrill 2015 yn dilyn rhaglen o resymoli grantiau ar gyfer gwella ysgolion er mwyn cyfuno cyllid i sicrhau y gellid gwneud penderfyniadau ar flaenoriaethau yn lleol ynghyd ag arbedion effeithlonrwydd gweinyddol.

51. Fel y nodwyd uchod, bu'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd ynghylch ailflaenoriaethu cyllid. Fel rhan o gyllideb 2016-17, mae'r ymrwymiad i gynyddu cyllid i ysgolion 1% uwchlaw'r newid i grant bloc Llywodraeth Cymru wedi parhau am flwyddyn arall. Mae hyn yn golygu bod cyllid i ysgolion wedi cynyddu 1.85%, ac mae'r rhan fwyaf o'r diogelwch hwn yn mynd yn uniongyrchol i wariant rheng flaen drwy'r grant Cynnal Refeniw i awdurdodau lleol. Mae hyn yn golygu bod ganddynt fwy o hyblygrwydd i wneud penderfyniad ar yr anghenion mwyaf a blaenoriaethau yn lleol. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i weithio gyda CLlLC a Chonsortia i

gynyddu hyblygrwydd yn y Grant Gwella Addysg er mwyn rheoli'r gostyngiadau gyda chyn lleied o effaith â phosibl ar blant a phobl ifanc.

***Cam Gweithredu Grant Amddifadedd Disgyblion***

| 2015-16<br>Llinell Sylfaen Ddiwygiedig y Gyllideb Atodol Gyntaf<br>£000 | Newidiadau ac ailflaenoriaethu'r gyllideb<br>£000 | 2016-17<br>Cyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|
| 82,046 | 7,200 | 89,246 |

52. Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2012, yn gyfle allweddol i ysgolion roi cymorth wedi'i dargedu i leihau anghydraddoldebau mewn cyflawniad addysgol. Crëwyd y Grant Amddifadedd Disgyblion i ddechrau am gyfnod o dair blynedd hyd at 2014-15, ond cafodd y cyllid ei ymestyn yng Nghyllideb Ddrafft 2014-15 am ddwy flynedd arall i gydnabod y pwys a roddir ar y grant hwn i helpu i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol.

53. Rydym yn dyrannu £7.2m pellach i ariannu'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn 2016-17 er mwyn cynyddu'r swm fesul disgybl cymwys o £1,050 i £1,150.

***TGCh a Cham Gweithredu Systemau Rheoli Gwybodaeth***

| 2015-16<br>Llinell Sylfaen Ddiwygiedig y Gyllideb Atodol Gyntaf<br>£000 | Newidiadau ac ailflaenoriaethu'r gyllideb<br>£000 | 2016-17<br>Cyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|
| 6,935 | 0 | 6,935 |

54. Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cefnogi'r broses o ddarparu'r cwricwlwm drwy roi mynediad i amrywiaeth o ddulliau ac adnoddau addysgu digidol o ansawdd uchel, yn cynnwys Hwb drwy'r rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol a JISC (rhwydwaith gwasanaeth a rennir yn y DU ar gyfer colegau addysg bellach); prosiect rhif unigryw'r dysgwr a systemau rheoli data mewnol. Mae Dyfodol Llwyddiannus yn nodi pa mor bwysig yw llythrennedd digidol ar gyfer y cwricwlwm a dysgu yn yr 21ain ganrif ac felly rydym wedi diogelu'r gyllideb hon.

***Cam Gweithredu Llesiant Plant a Phobl Ifanc***

| 2015-16<br>Llinell Sylfaen Ddiwygiedig y Gyllideb Atodol Gyntaf<br>£000 | Newidiadau ac ailflaenoriaethu'r gyllideb<br>£000 | 2016-17<br>Cyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| 17,532 | (35) | 17,497 |

55. Mae'r rhan fwyaf o'r cam gweithredu hwn yn cyllido'r lleoliadau preswyl arbenigol ar gyfer myfyrwyr ôl-16 ag anawsterau dysgu difrifol. Mae'r gyllideb yn gostwng £0.035m yn 2016-17, sy'n net o gynnydd o £0.045k mewn cyllid fel rhan o'r diogelwch buddion cyffredinol ar gyfer llaeth ysgol a gostyngiad o £80k yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion. Roedd y cyllid hwn wedi'i neilltuo mewn blynyddoedd blaenorol er mwyn cynnal cynllun peilot ar wasanaethau cwnsela mewn ysgolion cynradd, fodd bynnag, oherwydd y sefyllfa gyllido gyfyngedig sy'n bodoli ar hyn o bryd ac ar gyfer y dyfodol, nid oes unrhyw gyllid ar gael i gyflwyno'r canfyddiadau pe byddai cynllun peilot yn cael ei gynnal. Hefyd, dyrannwyd £30m ychwanegol i'r Gwasanaeth Iechyd er mwyn cynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ynghyd â gwasanaethau iechyd meddwl i bobl hŷn.

***Cam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr ôl-16***

| **2015-16**<br>**Llinell Sylfaen Ddiwygiedig y Gyllideb Atodol Gyntaf**<br>**£000** | **Newidiadau ac ailflaenoriaethu'r gyllideb**<br>**£000** | **2016-17**<br>**Cyllideb Ddrafft**<br>**£000** |
|---|---|---|
| 544,674 | 30,299 | 574,973 |

56. Mae'r gyllideb ar gyfer y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Grant Dysgu'r Cynulliad yn y Cam Gweithredu hwn wedi cynyddu £31.1m o'r gyllideb llinell sylfaen i £453.6m. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys cyfrifon y rhaglen gymorth statudol i fyfyrwyr a arweinir gan alw ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach. Mae'r gyllideb yn cefnogi Grantiau a Ffioedd Rhan Amser, Grantiau wedi'u Targedu gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, grant ffioedd dysgu a'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg. Mae £21.1m a drosglwyddwyd o'r Cam Gweithredu Addysg Uwch yn rhan o'r cynnydd hwn gan mai Llywodraeth Cymru sydd bellach yn gweinyddu'r taliadau ar gyfer y grant ffioedd dysgu yn hytrach na CCAUC.

57. Rydym wedi parhau â'n hymrwymiad i roi cymorth ariannol i fyfyrwyr o'r aelwydydd â'r incwm isaf i mewn i 2016-17 drwy gadw lefel gyffredinol y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr. Darparwyd £10.0m ychwanegol fel rhan o'r gyllideb i ateb y galw cynyddol am grantiau cymorth i fyfyrwyr, sydd i'w briodoli i gynnydd yn nifer y myfyrwyr a'r rhai sy'n gymwys i gael cymorth.

58. Mae'r gyllideb hefyd yn gostwng £0.094m yn 2016-17, o ganlyniad i drosglwyddo'r Prif Grŵp Gwariant i Ad-dalu'r Gronfa Buddsoddi i Arbed ar ôl adennill buddsoddiadau ar raglen i drawsnewid systemau TG y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Caiff y buddsoddiad cychwynnol o £2m ei adennill dros gyfnod o bum mlynedd a chaiff ei gyllido drwy arbedion effeithlonrwydd yn y Cwmni. Mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr bellach yn rhoi cyngor ac arweiniad ac yn gweinyddu'r broses o wneud cais ar gyfer benthyciadau myfyrwyr, a wnaed gan Awdurdodau Lleol yn flaenorol.

59. Mae'r gyllideb ar gyfer Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn Addysg Bellach wedi'u gostwng 10% (£707k). Roedd y Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn yn galluogi sefydliadau i fod yn hyblyg a darparu ar gyfer amgylchiadau eithriadol ar gyfer myfyrwyr mewn angen. Bydd y gostyngiad yn golygu bod angen rhoi mwy o flaenoriaeth i'r myfyrwyr hynny sy'n cael cymorth.

### *Cam Gweithredu Ymgysylltu â Disgyblion*

| **2015-16** **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig y Gyllideb Atodol Gyntaf** **£000** | **Newidiadau ac ailflaenoriaethu'r gyllideb** **£000** | **2016-17** **Cyllideb Ddrafft** **£000** |
|---|---|---|
| 658 | 0 | 658 |

60. Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cyllido gweithgareddau sydd wedi'u hanelu at brosiectau bach a gwella canlyniadau i ddysgwyr sy'n agored i niwed / dan anfantais drwy wella llesiant, ymddygiad a phresenoldeb mewn ysgolion; ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau; lleihau gwaharddiadau o'r ysgol; gwella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer addysg dysgwyr heblaw yn yr ysgol; a chynorthwyo plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

61. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r gyllideb ar gyfer 2016-17.

### *Cam Gweithredu Cymraeg mewn Addysg*

| **2015-16** **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig y Gyllideb Atodol Gyntaf** **£000** | **Newidiadau ac ailflaenoriaethu'r gyllideb** **£000** | **2016-17** **Cyllideb Ddrafft** **£000** |
|---|---|---|
| 18,599 | 82 | 18,681 |

62. Gwelwyd cynnydd bach o £0.082m yn y Cam Gweithredu Cymraeg mewn Addysg. Mae hyn yn gyfuniad o £0.825m a drosglwyddwyd o Gam Gweithredu'r Iaith Gymraeg ar gyfer gwaith cynllunio a phrif ffrydio a gostyngiad o £0.743m.

63. Ymysg y prif ostyngiadau a gynlluniwyd mae £0.5m ar gyfer Cymraeg i Oedolion gan fod y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wrthi'n rhesymoli nifer y darparwyr Cymraeg i Oedolion, i roi model cynaliadwy sy'n addas i'r diben.

64. Mae'r ail ostyngiad yn £0.2m ar gyfer swm y cyllid sydd ar gael ar gyfer Cymraeg i Blant (Twf yn flaenorol). Mae'r rhaglen yn cael ei haildendro ar hyn o bryd, ac felly mae hyn yn rhoi cyfle i geisio lleihau gwariant, gan wneud arbedion ar orbenion rheoli lle y bo'n bosibl. Rydym wedi diogelu cyllidebau sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag ysgolion.

***Cam Gweithredu Cymorth Cyflawni***

| **2015-16**<br>**Llinell Sylfaen Ddiwygiedig y Gyllideb Atodol Gyntaf**<br>**£000** | **Newidiadau ac ailflaenoriaethu'r gyllideb**<br>**£000** | **2016-17**<br>**Cyllideb Ddrafft**<br>**£000** |
|---|---|---|
| 3,702 | (167) | 3,535 |

65. Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cyllido marchnata a chyfathrebu, gwaith ymchwil a'r rhaglen addysg ryngwladol. Mae hefyd yn cynnwys cyllid ar gyfer rhaglen Remploy, sef cyllid o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau, ond mae'r polisi yn rhan o bortffolio'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi.

66. Mae'r gostyngiad yn gyfuniad o gyllid o £0.726m ar gyfer Remploy a £0.25m a drosglwyddwyd i Gam Gweithredu'r Cwricwlwm i gyllido ieithoedd tramor modern, wedi'i wrthbwyso gan arbedion o £0.4m o'r gyllideb ymchwil oherwydd proffil cyllid prawf PISA.

67. Mae gostyngiad o 10% (£0.113m) hefyd i'r gyllideb marchnata a chyfathrebu, a reolir drwy wneud cymaint o ddefnydd â phosibl o'r cyfryngau digidol a gostyngiad bach mewn gweithgarwch. Hefyd, ceir gostyngiad o £0.166m yn y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y rhaglen addysg ryngwladol. Caiff y gostyngiad hwn ei reoli drwy leihau gweithgarwch â British Council, lle nad yw rhaglenni'n perfformio fel y rhagwelwyd ac y gellir eu dirwyn i ben yn naturiol.

***Cam Gweithredu Cyfalaf - Ystadau a Darpariaeth TG***

| **2015-16**<br>**Llinell Sylfaen Ddiwygiedig y Gyllideb Atodol Gyntaf**<br>**£000** | **Newidiadau ac ailflaenoriaethu'r gyllideb**<br>**£000** | **2016-17**<br>**Cyllideb Ddrafft**<br>**£000** |
|---|---|---|
| 143,834 | 21,934 | 165,768 |

68. Mae'r gyllideb hon yn cefnogi band A o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, sy'n cyfateb i fuddsoddiad o £1.4bn dros y pum mlynedd sy'n dod i ben yn 2018-19. Bydd pob ardal awdurdod lleol yn elwa o'r rhaglen wella fawr hon, a fydd yn gyfrifol am ailadeiladu ac adnewyddu 150 o ysgolion a cholegau.

69. Bydd y cynnydd o'r llinell sylfaen yn ariannu pedwar o brosiectau addysg bellach. Bydd y gweddill yn cynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y rhaglen ysgolion.

**Gwariant Ataliol**

70. O fewn y portffolio Addysg a Sgiliau, rydym yn parhau i roi adnoddau sylweddol i feysydd o wariant ataliol er mwyn codi safonau llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad. Bydd y rhaglenni ymyrraeth gynnar hyn yn effeithio ar blentyn yn gynnar yn ei ddysgu ac yn rhoi sylfeini cadarn iddo ar gyfer ei addysg barhaus a fydd yn ei dro yn gwella ei siawns yn y farchnad lafur.

71. Mae *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2013, yn cydnabod bod buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar drwy addysg yn dylanwadu'n fawr ar ddatblygiad plentyn. Cytunir yn gyffredinol bod profiadau plentyndod cynnar yn hanfodol bwysig i ddatblygiad hirdymor plant a'u cyflawniadau yn ddiweddarach mewn bywyd. Dyna pam rydym yn parhau i ariannu'r Cyfnod Sylfaen er mwyn cefnogi'r blynyddoedd cynnar, drwy'r Grant Gwella Addysg. Drwy ddarparu cwricwlwm statudol i bob plentyn 3 i 7 oed, nod y Cyfnod Sylfaen yw sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd gan eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial.

72. Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn ymyriad allweddol ar gyfer atal tlodi, ac mae'n rhoi cyllid yn uniongyrchol i ysgolion fuddsoddi mewn ffyrdd effeithiol o fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad plant. Drwy'r £7.2m ychwanegol ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion yn 2016-17, a sicrhawyd fel rhan o'r Cytundeb Cyllideb ar gyfer 2015-16, rydym yn canolbwyntio ar gyflawni targedau allweddol a nodir yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi sy'n cynnwys gwella lefelau cyrhaeddiad cyffredinol myfyrwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

73. O fewn y Cam Gweithredu Llythrennedd a Rhifedd sy'n gwneud cyfanswm o £4.5m ar gyfer 2016-17, mae'r cyllid a ddarperir ar gyfer y profion darllen a rhifedd cenedlaethol wedi'i anelu'n benodol at lywio a chefnogi camau gweithredu ataliol ac ymyriadau cynnar o ran llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Gan fod y rhain yn sgiliau allweddol ar gyfer bywyd, a bod y diffyg sgiliau digonol yn rhwystro plant rhag cyrraedd eu llawn botensial, mae'r holl wariant ar brofion yn ataliol ynddo'i hun.

74. Ystyrir bod y Grant Gwella Addysg ar gyfer ysgolion (y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Grant Gwella Ysgolion) yn ataliol, ac mae'n cyfuno cyllid grant ar gyfer nifer o feysydd yn cynnwys y Cyfnod Sylfaen, y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, plant Sipsiwn a Theithwyr a phlant o leiafrifoedd ethnig.

75. Mae'r broses o weithredu *Cwricwlwm i Gymru: Cwricwlwm am Oes* yn ataliol yn ei hanfod. Drwy wella'r cwricwlwm, a'r broses o gyflwyno'r cwricwlwm hwnnw, fel bod pobl ifanc yn cael y siawns orau o feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddysgu ymhellach a chael gwaith. Gallai pedwar diben y cwricwlwm gael effaith hirdymor gadarnhaol ar iechyd, llesiant, yr amgylchedd a'r economi.

76. Ystyrir bod ein gwariant ar raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, sy'n cynnwys cyfanswm buddsoddiad o bron i £1.4bn, yn fesur ataliol gyda buddsoddiad

wedi'i dargedu at yr ysgolion hynny sydd yn y cyflwr gwaethaf ac sy'n cael eu defnyddio'n aneffeithlon. Yn yr hirdymor, bydd cyllid ar gyfer prynu eitemau newydd neu adnewyddu yn lleihau costau cynnal a chadw sydd wedi cronni, costau cynnal a chadw yn y dyfodol a chostau rhedeg refeniw drwy resymoli ystad yr ysgol.

77. Lleihau anghydraddoldeb deilliannau addysgol rhwng grwpiau gwahanol yw un o'r prif amcanion y mae angen i ni eu cyflawni fel y gellir, yn y tymor canolog i'r hirdymor, godi plant a phobl ifanc allan o dlodi a lleihau'r tebygolrwydd na fyddant mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) neu y byddant yn mynd yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol a rhoi'r cyfle gorau iddynt gael canlyniadau iechyd a bywyd gwell. Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid, a ariennir o'r Cam Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid, wedi'i seilio ar anghenion pobl ifanc ac atebolrwydd asiantaethau gwahanol, gan atgyfnerthu a chyflawni canlyniadau gwell i bobl ifanc.

**Deddfwriaeth**

78. Mae'r gyllideb yn parhau i ystyried ein rhaglen ddeddfwriaethol bresennol. Cyhoeddwyd tabl sy'n nodi'r costau ar gyfer 2016-17, sef costau deddfwriaeth a wnaed yn flaenorol a chostau disgwyliedig Biliau ar gam yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol cyhoeddedig neu'r cam deddfu, ynghyd â naratif y Gyllideb Ddrafft, Atodiad D. Rhoddir diweddariad manylach ar gostau ein rhaglen ddeddfwriaethol sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor hwn isod.

***Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013***

79. Derbyniodd Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 4 Mawrth 2013. Fel rhan o'r broses o'i gweithredu, ac fel y gweithredwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2013-14, trosglwyddwyd £21.8m o gyllid ar gyfer gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion a brecwast mewn ysgolion i'r Grant Cynnal Refeniw o fewn Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Cymru o 2013-14 ymlaen. Mae'r cyllid hwn yn parhau i ffurfio rhan o ddyraniad y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2016-17.

80. O dan y Ddeddf, mae awdurdodau lleol yn atebol am gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg a daeth Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn statudol o fis Ebrill 2014. Bydd y broses o weithredu'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn parhau i gael ei hariannu drwy gyllid ar gyfer y Grant Cymraeg mewn Addysg a drosglwyddwyd i'r Grant Gwella Addysg cyfun unigol newydd ar gyfer ysgolion o 2015-16.

***Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014***

81. Cafodd Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 Gydsyniad Brenhinol ar 27 Ionawr 2014. Ni ddisgwylir y bydd unrhyw gostau i Lywodraeth Cymru yn 2016-17.

### *Deddf Addysg (Cymru) 2014*

82. Mae Deddf Addysg (Cymru) a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 12 Mai 2014, yn ailenwi ac yn diwygio'r corff cofrestru presennol, sef Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, er mwyn creu Cyngor y Gweithlu Addysg, yn ymestyn y gofynion cofrestru, cymhwyso a hyfforddi ar gyfer y gweithlu addysg, ac yn darparu ar gyfer pennu dyddiadau tymhorau a gwyliau ysgol yng Nghymru.

83. Dylai'r model ffioedd terfynol ar gyfer Cyngor y Gweithlu Addysg fod ar waith ar gyfer cofrestru ym mis Ebrill 2016, yn dilyn blwyddyn bontio. Bydd y Cyngor yn parhau i fod yn gorff hunangyllidol.

### *Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015*

84. Ceir manylion am y Ddeddf hon yn yr adran ar Addysg Uwch isod.

### *Deddf Cymwysterau (Cymru) 2015*

85. Nodwyd y goblygiadau ariannol ar gyfer Deddf Cymwysterau Cymru yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r costau hyn wedi cael eu diweddaru rhywfaint wrth i ragor o wybodaeth ddod i law ac mae'r gyllideb ar gyfer y Cam Gweithredu Cymwysterau yn 2016-17 yn cynrychioli'r costau llawn sy'n angenrheidiol.

### *Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru)*

86. Y rhagolygon costau diweddaraf ar gyfer Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) yw'r rhai yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Bu'r Bil yn destun ymgynghoriad, a ddaeth i ben ar 18 Rhagfyr 2015. Mae'r ymatebion wrthi'n cael eu hadolygu. Ni fydd unrhyw gostau o ganlyniad i'r bil hwn yn 2016-17.

### *Deddfwriaeth y DU*

87. Ceir darpariaethau sy'n ymwneud ag addysg Gymraeg mewn nifer o Ddeddfau Senedd y DU, cyn yr Etholiad Cyffredinol eleni, sef:

- *Deddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015 -* rhannu gwybodaeth ac ad-dalu taliadau ymadael ar gyfer cyflogeion yn y sector cyhoeddus os byddant yn dychwelyd i'r gwaith i'r un rhan o'r sector cyhoeddus. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru gydsynio i'r darpariaethau hyn.

- *Deddf Dadreoleiddio 2015 -* symleiddio deddfwriaeth prentisiaethau, Lleihau beichiau ar y sectorau addysg bellach ac uwch. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a geisiwyd i'r Bil Dadreoleiddio, Diddymu diwygiadau i'w gwneud yn ofynnol i ysgolion feddu ar Gytundeb Cartref/Ysgol â rhieni a disgyblion. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru.

- *Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015* - ehangu cwmpas cynllun cwynion addysg uwch Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Nid yw'r ddeddfwriaeth ei hun yn golygu unrhyw ymrwymiadau ariannol i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth yn golygu bod rhai darparwyr addysg uwch, sef sefydliadau AB a darparwyr amgen yn cael eu cyflwyno i'r cynllun am y tro cyntaf. Mae'n ofynnol i aelodau cynllun Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dalu tanysgrifiad blynyddol yn seiliedig ar nifer y myfyrwyr yn y sefydliad. Bydd rhai goblygiadau hefyd o ran adnoddau er mwyn i'r darparwyr hyn allu cydymffurfio â'r cynllun.

- *Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015* - mae'n cynnwys dyletswydd ar awdurdodau penodol i roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth. Lluniodd Llywodraeth y DU dair dogfen ganllaw ar wahân ar gyfer awdurdodau penodol yn cynnwys Ysgolion a darparwyr gofal plant cofrestredig, sefydliadau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch y mae'n rhaid iddynt eu hystyried wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd. Rydym yn rhagweld y bydd rhywfaint o faich a chost ychwanegol yn wynebu cyrff yng Nghymru, fodd bynnag, ceir diffyg manylion o hyd a ddylai fod ar gael yn dilyn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid yng Nghymru ar y canllawiau gweithredu. Tan hynny, ni fydd yn bosibl cynnal asesiad cadarn o'r costau ariannol posibl hynny. Caiff hyn ei adolygu yn barhaus wrth i'r manylion ddod yn gliriach ac wrth i ragor o gyngor gael ei roi maes o law.

88. Yn ystod cyfnod Llywodraeth bresennol y DU, rydym hefyd wedi bod yn monitro nifer o Filiau'r DU, y mae gennym ddiddordeb penodol ynddynt neu a allai effeithio ar y cylch gwaith Addysg a Sgiliau yn anuniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y Bil Elusennau (Diogelu a Buddsoddiad Cymdeithasol)
- Y Bil Menter
- Y Bil Tai a Chynllunio
- Y Bil Mewnfudo
- Y Bil Undeb Llafur
- Y Bil Diwygio Lles a Gwaith
- Y Bil Pwerau Ymchwilio Drafft

89. Wrth i'r Biliau fynd ar eu hynt drwy broses ddeddfwriaethol Senedd y DU, wrth i gymalau gael eu diwygio, eu tynnu a'u hychwanegu, byddwn yn parhau i weithio gyda Whitehall i ddeall y goblygiadau i'r Adran, yn cynnwys yr effaith gyllidebol lawn, os oes unrhyw effaith. Fodd bynnag, ar y cam hwn, rhagwelir y bydd unrhyw gostau ychwanegol yn rhai bach iawn ac y gellir eu talu o'r Prif Grŵp Gwariant os oes angen.

***Is-ddeddfwriaeth***

90. Nid oes unrhyw oblygiadau sylweddol o ran costau i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau yn 2016-17 o ganlyniad i is-ddeddfwriaeth, gydag unrhyw gostau gweithredu'n cael eu talu o'r gyllideb bresennol ar gyfer costau rhedeg yr adran.

## Ystyriaethau trawsbynciol

91. Atodir Asesiad Integredig o Effaith yn Atodiad 2 i'r papur tystiolaeth hwn.

92. Mae'r asesiad yn cwmpasu effaith ein penderfyniadau gwariant ar gydraddoldeb ar gyfer y nodweddion gwarchodedig ynghyd â'r effeithiau ar yr Iaith Gymraeg, Hawliau'r Plentyn, Trechu Tlodi wedi'u cysoni o dan ymbarél llesiant, fel y nodwyd yn *Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.* Rydym wedi sicrhau bod polisïau a rhaglenni yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gynaliadwyedd, drwy ystyried buddsoddiad y gallwn ei wneud yn awr er mwyn atal mwy o gamau gweithredu drud yn y dyfodol.

93. O dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, rydym wedi rhoi ystyriaeth gytbwys i'r hawliau a nodir yn y CCUHP. Nid oes Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2016-17 ac ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau wedi'i gyhoeddi ar wahân, ond mae'n ffurfio rhan o'r Asesiad Integredig o Effaith.

## Meysydd penodol

94. Mae'r adran hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd penodol y gofynnwyd amdani gan y Pwyllgor.

### *Diogelwch cyllideb o 1% ar gyfer ysgolion*

95. Mae'n bleser gennym gyhoeddi fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft, y gallwn ymestyn ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i gynyddu cyllidebau ysgolion 1% yn uwch na'r cynnydd yn y grant bloc, a oedd yn wreiddiol dros gyfnod tymor y Cynulliad, i gynnwys blwyddyn arall ar gyfer 2016-17. Drwy gydol tymor presennol y Cynulliad, rydym wedi darparu £106miliwn ychwanegol o ganlyniad i'n hymrwymiad diogelwch. Mae ein hymrwymiad ar gyfer cyllid ysgolion wedi bod yn bwysig o ran gosod y sylfeini ar gyfer gwelliannau mawr yn y system addysg dros y pum mlynedd diwethaf.

96. Cafodd yr ymrwymiad ei gyfrifo gan ddefnyddio'r un cyllidebau ag a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol o elfen cyllidebau ysgolion y Grant Cynnal Refeniw yn y Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a chyllidebau sy'n gysylltiedig ag ysgolion o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau.

97. Y llinell sylfaen ar gyfer y cyfrifiad yw'r cyllidebau a nodir yn Atodiad E o ddogfen Cyllideb Ddrafft 2015. Y cynnydd yn y grant bloc ar gyfer Cymru yw 0.85% ac felly y diogelwch yw 1.85%. Fel gyda blynyddoedd blaenorol, mae'r cyllid grant Amddifadedd Disgyblion yn ychwanegol at y diogelwch hwn. Cyfrifwyd y diogelwch fel a ganlyn:

| | 2015-16 £000 | 2016-17 Mwy o gyllid £000 | 2016-17 Cyfanswm £000 | 2016-17 Cynnydd % |
|---|---|---|---|---|
| Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau | 361,442 | 4,900* | 366,342 | 1.36% |
| Grant Cynnal Refeniw | 1,779,920 | 34,801 | 1,814,721 | 1.96% |
| **Cyfanswm** | **2,141,362** | **39,701** | **2,181,141** | **1.85%** |

*£2.9m ar gyfer Her Ysgolion Cymru, £2m yn rhoi diogelwch arian gwastad ar gyfer cyllid ysgolion o fewn y Prif Grŵp Gwariant.

98. Mae'r ffrydiau cyllido o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau sy'n darparu'r diogelwch yn ddigyfnewid. Maent fel a ganlyn:

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb Ddrafft 2015-16 £000** | **Cyllideb Ddrafft 2016-17 £000** |
|---|---|---|
| Llythrennedd a Rhifedd | 4,512 | 4,456 |
| Cyfnod Sylfaen | 1,851 | 1,851 |
| Cwricwlwm ac Asesu (wedi'i rhannu rhwng hon a'r Llinell Wariant yn y Gyllideb isod) | 26,055 | 10,299 |
| Adolygu'r Cwricwlwm a Her Ysgolion Cymru (Llinell Wariant yn y Gyllideb newydd) | - | 20,400 |
| Datblygiad a Chymorth Athrawon | 10,387 | 21,221 |
| Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (wedi'i chyfuno â'r Llinell Wariant yn y Gyllideb uchod) | 5,569 | - |
| Cymwysterau | 7,903 | - |
| Cymwysterau Cymru | - | 8,169 |
| Addysg Bellach (dosbarthiadau chweched dosbarth ysgolion) | 106,133 | 106,133 |
| Grant Gwella Ysgolion | 141,021 | 134,782 |
| Llywodraethu Ysgolion | 1,738 | 1,353 |
| Cymorth Safonau Ysgolion | 1,364 | 1,394 |
| Bwyd a Maeth mewn Ysgolion (ac eithrio cyllid ychwanegol ar gyfer llaeth ysgol) | 3,185 | 3,230 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol | 2,246 | 2,786 |
| Trechu Dadrithiad | 658 | 658 |
| Gwasanaethau Cwnsela mewn Ysgolion | 80 | - |
| Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg | 2,500 | 3,370 |
| **Cyfanswm** | **315,202** | **320,102** |
| Addasiad Trosglwyddo'r Grant Cynnal Refeniw* | 46,240 | 46,240 |
| **Ysgolion AdAS (Cyfanswm wedi'i addasu)** | **361,442** | **366,342** |

** Trosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw o 2013-14: Brecwast, Blas am Oes, CLlLC, Gwasanaethau Cwnsela mewn Ysgolion, AAA Ôl-16 (er mwyn sicrhau y gellir cymharu â llinell sylfaen 2010-11)*

99. Mae'r Grant Cynnal Refeniw heb ei neilltuo ac ni allwn orchymyn sut y dylai Awdurdodau Lleol wario eu cyllidebau, fodd bynnag, gallwn weithio gyda llywodraeth leol i ddylanwadu ar y gwariant ac rydym yn gwneud hynny. Mae addysg yn flaenoriaeth ar gyfer llywodraeth leol ac mae wedi rhoi addewid i gyflwyno'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd gennym fel rhan o'r ymrwymiad diogelwch o 1% i ysgolion.

100. Bu'n ofynnol i Awdurdodau Lleol, drwy'r ffurflenni monitro, roi tystiolaeth bod y gwariant a gyllidebwyd ganddynt ar gyfer ysgolion yn cynyddu yn unol ag elfen gyllidebu Llywodraeth Leol o'r diogelwch o 1% (net o grantiau penodol a chan ganiatáu ar gyfer addasiadau mewn niferoedd disgyblion). Mae'r data monitro a gafwyd gan Awdurdodau Lleol hyd at 2014-15 yn dangos bod pob Awdurdod Lleol naill ai wedi cyflawni'r ymrwymiad o 1% neu wedi rhagori arno. Rydym yn disgwyl i hyn barhau.

101. Er mai'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n gyfrifol am y diogelwch ar gyfer ysgolion o fewn y Grant Cynnal Refeniw, mae swyddogion addysg Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda swyddogion llywodraeth leol i drafod canlyniadau data monitro awdurdodau lleol, a gyda CLlLC i ddeall yr effaith bosibl ar addysg, ysgolion, a'r gwasanaethau cyngor ehangach.

***Grant Amddifadedd Disgyblion***

102. Mae gan Ipsos Mori/WISERD gontract pedair blynedd i werthuso effeithiolrwydd y Grant Amddifadedd Disgyblion gan ddangos i ba raddau y mae'r rhaglen yn cynnig gwerth am arian. Cyhoeddwyd adroddiad Blwyddyn 1 yn ystod hydref 2014, a chyhoeddwyd adroddiad Blwyddyn 2 ar 2 Rhagfyr 2015.

103. Yn adroddiad Blwyddyn 1, nododd awduron nad oedd digon o ysgolion yn defnyddio ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth. Mewn ymateb i hyn, drafftiodd tîm gweithredu Ailysgrifennu'r Dyfodol strategaeth cyfathrebu gynhwysfawr a oedd yn cynnwys poster am y 10 o ymyriadau mwyaf effeithiol, awgrymiadau rheolaidd a gyhoeddwyd yn Dysg, yr e-fwletin ar gyfer ysgolion yng Nghymru a chanllawiau diwygiedig ar y Grant Amddifadedd Disgyblion; "Grant Amddifadedd Disgyblion: Canllawiau Hanfodol" a gafodd ei gwtogi i naw tudalen o bwyntiau allweddol yn canolbwyntio ar beth mae'n hanfodol i ymarferwyr ei wybod. Mae adroddiad Blwyddyn 2 (ac adroddiad eleni gan Estyn) yn nodi bod mwy o ysgolion yn defnyddio tystiolaeth fel sail ar gyfer gwneud eu penderfyniadau gwariant o ran y Grant Amddifadedd Disgyblion, yn cynnwys casglu a defnyddio eu tystiolaeth monitro eu hunain. Canfu adroddiad Blwyddyn 2 hefyd fod y ffordd y mae ysgolion yn defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion wedi datblygu dros amser, gydag ysgolion a fuddsoddodd mewn systemau monitro data bellach yn symud ymlaen i gyflwyno ymyriadau a hyfforddi staff i gyflawni'r ymyriadau hynny'n dda.

104. Nododd adroddiad Blwyddyn 1 hefyd fod ysgolion yn defnyddio diffiniad ehangach o amddifadedd a'u bod yn defnyddio'r grant i helpu dysgwyr nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Ymchwiliodd y swyddogion i hyn a chanfod bod llawer o ysgolion yn cyfrannu cyllid arall i'r Grant Amddifadedd Disgyblion er mwyn cyflwyno ymyriadau i grŵp ehangach o ddysgwyr dan anfantais; fodd bynnag, mae hyn yn cydymffurfio ag amodau'r grant. Er mwyn egluro hyn, lluniwyd siart llif gwneud penderfyniad er mwyn helpu ymarferwyr i benderfynu beth sy'n ddefnydd cymwys o'r grant a beth nad yw'n ddefnydd cymwys o'r grant. Nododd adroddiad Blwyddyn 2 (ac adroddiad eleni gan Estyn) fod y mwyafrif helaeth o ysgolion yn gwneud penderfyniadau cymwys ynghylch sut i wario'r grant.

105. Un mater sy'n codi dro ar ôl tro a nodwyd yn adroddiad Blwyddyn 1 yw'r defnydd o'r grant i gyflogi cynorthwywyr addysgu. Mae tîm Ailysgrifennu'r Dyfodol wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau y caiff cynorthwywyr addysgu eu lleoli a'u hyfforddi'n effeithiol. Canfu adroddiad Blwyddyn 2 fod y Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei ddefnyddio nid yn unig i gyflogi cynorthwywyr addysgu, ond hefyd i'w hyfforddi i weithredu a gwerthuso ymyriadau'r Grant Amddifadedd Disgyblion, a nododd fod cynorthwywyr addysgu yn dod yn aelodau o staff yr ysgol a werthfawrogir yn fawr.

106. Nododd adroddiad Blwyddyn 1 nad oedd digon o ymgysylltu rhwng ysgolion a theuluoedd a chymunedau. Mewn ymateb i hyn, mae swyddogion wedi cynnal ymgyrch ar y cyd i annog ymgysylltiad. Datblygwyd pecyn cymorth Ymgysylltu â Theuluoedd a Chymunedau ar gyfer ymarferwyr ac mae swyddogion wedi bod yn ymweld ag ysgolion a chonsortia ac yn mynychu digwyddiadau i hyrwyddo'r defnydd ohono. Mae adroddiad Blwyddyn 2 (ynghyd ag adborth gan ein Heiriolwr Codi Cyrhaeddiad, Syr Alisdair MacDonald) yn awgrymu bod buddsoddiad cynyddol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn mynd ar ymgysylltu â theuluoedd ac ymgysylltu â'r gymuned.

107. Yn olaf, nododd adroddiad Blwyddyn 2 bod 'llai o dystiolaeth' fod y Grant Amddifadedd Disgyblion wedi effeithio ar arfer athrawon mewn ystafelloedd dosbarth i'r un graddau â chynorthwywyr addysgu yn y rhan fwyaf o ysgolion, er y gellir priodoli hyn, o bosibl, i'r ffaith bod ysgolion wedi defnyddio'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion ar ddatblygu addysgu a dysgu. Bydd tîm Ailysgrifennu'r Dyfodol bellach yn addasu ein strategaeth cyfathrebu o amgylch y rhaglen er mwyn annog mwy o ysgolion i ddefnyddio eu Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus a fydd yn eu galluogi i ddarparu'r dulliau gweithredu addysgol sydd fwyaf effeithiol ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig.

108. Mae'n rhy gynnar i ddadansoddi effaith a gwerth am arian y Grant Amddifadedd Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar. Fodd bynnag, mae gwerthusiad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar y dulliau o ddyrannu'r grant a chyflwynir adroddiad ar hyn yng nghanol mis Ionawr (ar ôl dyddiad y pwyllgor nesaf yn anffodus).

109. Caiff asesiad ffurfiannol o effaith y Grant Amddifadedd Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar ei roi ar dendr yn fuan a dylai fod wedi'i sefydlu erbyn mis Ionawr 2016, a chyflwynir adroddiad arno yn ystod haf 2016.

110. Ers mis Ebrill 2015, mae'r consortia addysg rhanbarthol wedi bod yn gyfrifol am reoli a gweinyddu'r elfen plant sy'n derbyn gofal o'r grant er mwyn cyflwyno cymorth strategol a sicrhau cyrhaeddiad addysgol gwell i'r dysgwyr hynny. Rydym yn cydweithio'n agos â chonsortia er mwyn sicrhau bod y trefniadau newydd yn gweithredu'n llyfn. Fodd bynnag, ar y cam hwn, mae'n rhy gynnar i ddadansoddi effaith a gwerth y Grant Amddifadedd Disgyblion mewn perthynas â'r grŵp hwn.

111. Yn ein strategaeth arfaethedig: Codi dyheadau a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Rhagfyr, rydym wedi nodi camau gweithredu pellach i atgyfnerthu'r trefniadau cyllido. Er mwyn atgyfnerthu atebolrwydd consortia ar gyfer cyflawni canlyniadau, byddwn yn cyflwyno proses adrodd newydd er mwyn olrhain a monitro gwariant yn well. O fis Ebrill 2016, byddwn yn cyflwyno proses adolygu gyflym er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd blwyddyn gyntaf y trefniadau cyllido.

112. Mae'r consortia rhanbarthol yn dosbarthu ac yn rheoli'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar ran Llywodraeth Cymru; mae ganddynt Gynghorwyr Herio sy'n cydweithio ag ysgolion er mwyn sicrhau bod y Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei wario'n briodol a bod eu cynigion gwariant wedi'u cynnwys yng Nghynllun Datblygu Ysgol pob ysgol. Mae'r consortia yn rhoi adroddiadau bob chwe mis i Lywodraeth Cymru ar y gweithgareddau a'r canlyniadau a gyflawnwyd yn eu rhanbarth gan ysgolion drwy ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion.

113. Lle mae gan swyddogion Llywodraeth Cymru bryderon ynghylch defnydd amhriodol o'r grant, gofynnir i uwch swyddog yn y consortia ymchwilio i hyn. Os profir bod y pryderon yn wir, yna mae gan Lywodraeth Cymru drefniant i adennill yr arian gan y prif awdurdod lleol bancio ar gyfer y consortiwm, a bydd ef yn ei dro yn adennill hyn gan yr awdurdod lleol lle y lleolir yr ysgol ac yna dylai'r awdurdod lleol hwnnw adennill y grant neu ran ohono gan yr ysgol.

### ***Her Ysgolion Cymru***

114. Dechreuodd Her Ysgolion Cymru ym mis Medi 2014. Ar 16 Tachwedd 2015, cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig yn nodi'r cyllid ar gyfer y flwyddyn academaidd gyntaf sef 2014/15. Darparwyd hyd at £20m ar gyfer y rhaglen, fodd bynnag, nodwyd bod angen £16.35m (refeniw a chyfalaf) i gefnogi'r ddarpariaeth hon, gyda gwariant terfynol o £16.088m. Mae'r swm hwn yn adlewyrchu'r lefelau cymorth a nodwyd gan Ysgolion Llwybrau Llwyddiant a'u Cynghorwyr yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen (2014/15), er mwyn dechrau eu sefydlu ar eu taith i welliant, a dechrau meithrin gallu i wella yn ehangach yn y system.

115. Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2015/16, roedd y gofynion ariannu yn £18.6m. Caiff y cyllid ei rannu dros ddwy flwyddyn ariannol.

116. Cyhoeddwyd Her Ysgolion Cymru yn wreiddiol fel rhaglen dwy flynedd sydd yn ei hail flwyddyn academaidd ar hyn o bryd.

117. Mae ymchwil ryngwladol yn awgrymu bod angen o leiaf bum mlynedd i gyflawni diwygiadau cynaliadwy ar lefel system. Gan ystyried hynny, mae'r flwyddyn ychwanegol a gyhoeddwyd yn y gyllideb hon yn rhoi cyfle estynedig i ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r rhaglen ar gyfer gwella ysgolion yn ehangach. Mae hefyd yn cydnabod mai megis dechrau ar eu taith i welliant y mae rhai o'n hysgolion.

118. Mae'r tabl canlynol yn dangos ffynhonnell y cyllid ar gyfer y rhaglen rhwng 2014-15 a 2016-17.

| **Blwyddyn Ariannol** | **Ffynhonnell - cronfeydd wrth gefn £m** | **Ffynhonnell Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau (refeniw a chyfalaf) £m** | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|
| 2014-15 Gwirioneddol | 12.10 | 3.99 | 16.09 |
| 2015-16 Cyllideb | 9.40* | 3.00 | 12.40 |
| 2016-17 Cyllideb | 15.00 | 0.00 | 15.00 |

Cafwyd *£12.1m fel rhan o gyllideb ddrafft 2015-16 o'r cronfeydd wrth gefn, dyrannwyd £3.5m arall o gyllid canlyniadol datganiad hydref 2015 a'i drosglwyddo i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg A Sgiliau yng nghyllideb atodol gyntaf 2015-16. Yn seiliedig ar broffil gwariant mewn ysgolion a'r ffaith bod tua thraean o wariant blwyddyn academaidd 2015/16 yn cael ei gynnwys ym mlwyddyn ariannol 2016/17, caiff £6.2m ei drosglwyddo'n ôl i'r cronfeydd wrth gefn yn ail gyllideb atodol 2015-16.

119. Caiff cyllid ar gyfer ysgolion Llwybrau Llwyddiant ei nodi a'i ddiffinio ym mhob Cynllun Datblygu Ysgol unigol gyda her a chymorth trwyadl gan y cynghorydd Her Ysgolion Cymru. Yna, bydd yr ysgol a'r cynghorydd Her Ysgolion Cymru yn cytuno ar Gynllun Datblygu'r Ysgol cyn iddo gael ei gyflwyno i'r grŵp Hyrwyddwyr arbenigol graffu arno'n fanwl a'i gymeradwyo. Mae sicrhau gwerth am arian a gwelliant cynaliadwy wrth wraidd y broses hon.

120. Cynlluniwyd Rhaglen Her Ysgolion Cymru er mwyn sicrhau gwelliannau cyflym a chynaliadwy i'n hysgolion Llwybrau Llwyddiant ac yn fwy eang ar draws y system a fydd yn ei dro yn sicrhau gwerth am arian. Dilynwyd yr egwyddor hon drwy gydol y broses o gyflwyno'r rhaglen gyda'r consortia rhanbarthol a'r ysgolion.

121. Nod Rhaglen Her Ysgolion Cymru yw meithrin a defnyddio'r arbenigedd gorau sy'n bodoli eisoes o fewn y system drwy roi pwyslais ar gydweithredu effeithiol er mwyn ysgogi gwelliant cynaliadwy a symud gwybodaeth i ble y mae angen iddi fod. Yn hyn o beth, gall Her Ysgolion Cymru weithredu fel catalydd ar gyfer newid ehangach, ar draws y system.

122. Gan ddefnyddio arbenigedd a brofwyd i wella safonau yn ein hysgolion Llwybrau Llwyddiant, mae gan ein cynghorwyr Her Ysgolion Cymru rôl allweddol i'w chwarae yn gweithio gyda'r ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn gwella a bod eu gwelliannau yn gynaliadwy.

123. Cynlluniwyd rhaglen Her Ysgolion Cymru i ymateb i amgylchiadau unigryw pob ysgol, drwy ddarparu pecynnau cymorth wedi'u teilwra er mwyn helpu i ymateb i'w heriau.  Felly, caiff adnoddau eu dyrannu ble y byddent yn cael yr effaith fwyaf, yn hytrach na chan ddilyn meini prawf penodol.  Mae'r broses ar gyfer cyflawni hyn drwy'r Cynlluniau Datblygu Ysgol unigol a ddisgrifir uchod.

124. Caiff llwyddiant cyffredinol y rhaglen ei fesur yn ôl pa mor effeithiol y caiff cyrhaeddiad eu disgyblion ei godi, yn cynnwys y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim. Caiff hyn ei fesur yn fwyaf amlwg pan fydd eu disgyblion yn cyflawni Lefel 2 a Lefel 2 yn cynnwys Saesneg a Mathemateg.

125. Bydd gan Ysgolion Llwybrau Llwyddiant hefyd eu mesurau llwyddiant eu hunain. Ymysg y dangosyddion allweddol eraill a ddefnyddir i fesur gwelliant Ysgolion Llwybrau Llwyddiant mae:

- Lefelau presenoldeb
- Graddau Arolygu Estyn
- Categorïau Ysgolion
- Hunanasesiadau Ysgolion a Chynghorwyr Her Ysgolion Cymru, yn cynnwys arweinyddiaeth a gallu ysgolion i wella
- Adborth gan ddisgyblion, yn cynnwys arolygon hunanwerthuso.

126. Ar 2 Rhagfyr 2015, cyhoeddwyd Datganiad Gweinidogol ysgrifenedig a oedd yn nodi perfformiad Ysgolion Llwybrau Llwyddiant yn yr arholiadau TGAU yn ystod haf 2015. Yn y gorffennol, mae'r 40 o ysgolion wedi cael trafferth i ddal i fyny ag ysgolion mewn amgylchiadau llai heriol. Mae mwy na dwy ran o dair ohonynt wedi nodi gwelliannau ers blwyddyn gyntaf eu taith i welliant gyda'r rhaglen. Yn ogystal â'r rhan fwyaf o'r 40 o ysgolion sy'n cofnodi gwelliannau ar ganlyniadau'r llynedd, gwnaeth rhai hynny yn y ffigurau dwbl; a chofnododd eraill eu canlyniadau gorau erioed. O ystyried bod llawer o'r ysgolion hyn wedi cael llawer o anawsterau yn flaenorol wrth geisio gwella eu perfformiad, mae'n galonogol iawn gweld y cynnydd a wnaed ar ôl dim ond blwyddyn.

127. O ran goblygiadau ariannol y Swyddog Disgyblion, darparwyd £200k i ddechrau er mwyn i ysgolion Llwybrau Llwyddiant ddechrau treialu ffyrdd newydd o weithio yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf 2014/15. Roedd hyn yn cyfateb i £5k fesul ysgol.

128. Nod y buddsoddiad hwn oedd rhoi lle ac adnoddau i ysgolion arloesi, er mwyn cael gwybod beth oedd yn gweithio orau iddynt hwy a'u disgyblion. Bwriadwyd iddo ysgogi dysgu hefyd. Yn sgil y buddsoddiad hwn, ffurfiodd ysgolion Llwybrau Llwyddiant amrywiaeth eang o bartneriaethau â sefydliadau ledled Cymru a thu hwnt.

129. Gofynnwyd i ysgolion Llwybrau Llwyddiant hefyd archwilio a datblygu opsiynau cost isel neu ddim cost, gwneud defnydd gwell o wybodaeth ac adnoddau sy'n bodoli yng Nghymru, ac ymgorffori ffyrdd newydd o weithio fel rhan o'u busnes o ddydd i ddydd.

130. O ran ail flwyddyn y rhaglen, ni ddyrannwyd unrhyw gyllid a neilltuwyd yn benodol at ddibenion cyflawni gweithgarwch y Cynnig i Ddisgyblion.

131. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi croesawu nodau bwriadedig y maes hwn drwy atgyfnerthu ac ymgorffori gweithgarwch y Cynnig i Ddisgyblion yn eu ffyrdd ehangach o weithio. Mae hyn yn amlwg yn eu Cynlluniau Datblygu Ysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16, lle mae ysgolion Llwybrau Llwyddiant wedi nodi eu Cynigion i Ddisgyblion ac yn eu cyflwyno mewn amrywiaeth o ffyrdd, yn cynnwys cyflwyno gweithgarwch 'o fath Cynnig i Ddisgyblion' drwy amrywiaeth o ffynonellau cyllid (mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, y Grant Amddifadedd Disgyblion, y Grant Gwella Addysg, Her Ysgolion Cymru a'r Rhaglen Llythrennedd Corfforol i Ysgolion). Felly, ni ellir dadgyfuno'n llwyr oblygiadau ariannol y Cynnig i Ddisgyblion ar gyfer cyllid refeniw Her Ysgolion Cymru.

132. Nod y Cynnig i Ddisgyblion yw meithrin diwylliant lle mae ysgolion a'u partneriaid yn gweld buddiannau cydweithio er mwyn cyflwyno amrywiaeth o gyfleoedd a phrofiadau i ddysgwyr sy'n ehangu gorwelion ac yn codi dyheadau. Mae'r dull hwn yn dechrau dwyn ffrwyth a bydd yr hyn a ddysgir yn llywio'r broses o gyflwyno Cynnig cenedlaethol i Ddisgyblion, fel y nodir yn 'Cwricwlwm i Gymru; cwricwlwm am oes’.

***Grant Gwella Addysg***

133. Mae Grant Gwella Addysg i Ysgolion yn ganlyniad i broses resymoli grantiau helaeth o fewn Addysg. Mae'n cynnwys nifer o grantiau sy'n canolbwyntio ar wella ysgolion â chanlyniadau cysylltiedig, y mae pob un ohonynt yn cefnogi Cymwys am Oes.

134. Rhoddwyd y trefniadau ar waith i roi hyblygrwydd wrth gyllido, systemau wedi'u symleiddio a lleihau'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â hawlio cyllid grant. Drwy'r trefniadau hyn, rhoddwyd lefel weinyddu uchaf o 1.5% o'r grant er mwyn annog gostyngiad yn yr elfen weinyddu a rheoli a ffocws cliriach ar ganlyniadau. Mae hyn yn unol â'r hyn y mae'r Comisiwn Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei ddweud wrthym ynghylch yr angen i ddadneilltuo cyllid grant a rhoi hyblygrwydd wrth gyllido er mwyn canolbwyntio'n well ar gyflawni canlyniadau.

135. Cynhaliwyd asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb cyn cyflwyno'r Grant Gwella Addysg ac yn bwysicach, drwy roi'r modd i Awdurdodau Lleol a'u consortia bennu eu blaenoriaethau a'r adnoddau i'w cefnogi, rydym wedi parhau i weld cyllid ar gyfer blaenoriaethau anstatudol fel cymorth i blant o leiafrifoedd ethnig a phlant sipsiwn a theithwyr yn parhau.  Rydym yn parhau i gydweithio â

chonsortia tuag at fframwaith canlyniadau a fydd yn sicrhau y caiff anghenion pob grŵp o ddysgwyr eu diwallu.

136. Mae'n rhy gynnar i gymharu canlyniadau o dan y Grant Gwella Addysg newydd a'r grantiau a neilltuwyd yn flaenorol. Hefyd, mae bob amser anawsterau wrth nodi effaith unigol un elfen o raglen newid a gwelliant lawer ehangach. Fodd bynnag, gwyddom fod perfformiad yn gwella o'r dystiolaeth yn y canlyniadau o welliannau yn gyffredinol a thrwy leihau'r bwlch rhwng y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim. Mae'r systemau a'r cymorth rydym wedi'i sefydlu drwy'r Model Cenedlaethol, Her Ysgolion Cymru, y Grant Gwella Addysg a'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn gwneud gwahaniaeth.

137. Nid oes unrhyw gynlluniau i gynnal ymarfer penodol i gymharu'r cyfundrefnau cyllido hen a newydd ar hyn o bryd. Rydym yn parhau i fonitro effaith ein rhaglen newid gyffredinol.

### *Cymwysterau Cymru*

138. Gwnaeth yr adolygiad o Gymwysterau i bobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru 42 o argymhellion a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru. Ym mis Ionawr 2013, lansiwyd rhaglen i weithredu'r argymhellion hyn, a fydd yn rhedeg tan fis Mawrth 2015. Ar 31 Mawrth 2015, roedd yr holl argymhellion wedi'u gweithredu neu'n agos i gael eu gweithredu.

139. Yn y dyfodol, bydd Llywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru yn cydweithio i sicrhau bod argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau yn parhau i ategu a llywio'r system cymwysterau genedlaethol.

140. Rhagwelir y bydd cyfanswm y gyllideb flynyddol ar gyfer Cymwysterau Cymru ar gyfer 2016-17 yn £8 miliwn ac y caiff ei dalu o Linell Gwariant yn y Gyllideb Cymwysterau Cymru.

141. Yn 2012, pan dderbyniodd Gweinidogion Cymru argymhelliad yr Adolygiad o Gymwysterau y dylid creu corff annibynnol i atgyfnerthu prosesau rheoleiddio, roedd yn anochel y byddai hyn yn arwain at gostau ychwanegol. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer Deddf Cymwysterau Cymru yn dangos mai cost ychwanegol amcangyfrifedig y system newydd yw £15.7 miliwn dros y pum mlynedd nesaf (2015-16 hyd at 2019-20) o gymharu â'r opsiwn realistig o beidio â newid y sefyllfa bresennol. Wrth gynnig y gyllideb, a dderbyniwyd gan y Cynulliad, adolygwyd yr holl flaenoriaethau addysg a lluniwyd darpariaeth gyllidebol briodol.

### *Y Cwricwlwm*

142. Caiff cyllid o £5.4m ei gynnwys o fewn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Adolygu'r Cwricwlwm a Her Ysgolion Cymru i ddarparu'r flwyddyn gyntaf o'r adolygiad o'r Cwricwlwm yn dilyn y gwaith paratoi a wnaed eleni. Mae'r elfen

sy'n ymwneud â'r Fargen Newydd wedi cael ei gwahanu a chaiff ei hariannu drwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygiad a Chymorth Athrawon.

143. Y nod yw i'r cwricwlwm newydd fod ar gael erbyn 2018, gyda defnydd llawn o fframwaith y cwricwlwm i ategu dysgu ac addysgu erbyn 2021. Mae'r amserlen realistig a chyflawnadwy hon yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng cyflymder a sicrhau y caiff arfer proffesiynol ei ddatblygu er mwyn helpu'r broses o gyflwyno dulliau newydd o ddysgu ac addysgu. Mae'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm newydd hwn yn ymrwymiad Gweinidogol â blaenoriaeth a gafodd gefnogaeth drawsbleidiol yn ogystal â chefnogaeth gan y sector addysg ehangach yn cynnwys ymarferwyr.

144. Cafwyd cyllid ar gyfer gweithredu Dyfodol Llwyddiannus drwy ailflaenoriaethu ar draws y Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau. Caiff y gyllideb ar gyfer blynyddoedd i ddod ei hadolygu fel rhan o'r gyllideb gyntaf yn nhymor nesaf y Cynulliad.

***Cymwys am Oes***

145. Cymwys am Oes yw'r strategaeth gyffredin ar gyfer addysg i ddisgyblion 3-19 oed yng Nghymru. Mae'r strategaeth hon yn sail i gynllun busnes yr adran a gaiff ei ddiweddaru bob blwyddyn er mwyn cyflawni ein canlyniadau dymunol. Pennwyd cyllideb eleni gan ddilyn adolygiad fesul llinell o'n holl weithgareddau a chyllidebau cysylltiedig, er mwyn blaenoriaethu'r meysydd sy'n cael yr effaith gadarnhaol fwyaf ar blant a phobl ifanc neu a gaiff yr effaith gadarnhaol fwyaf arnynt. Mae'r gyllideb ar gyfer y Cynllun Gwella Addysg yn croesi'r Camau Gweithredu canlynol: Llythrennedd a Rhifedd, y Cwricwlwm, Addysgu ac Arweinyddiaeth, Cymwysterau, Addysg Ôl-16, Safonau Addysg, Grant Amddifadedd Disgyblion, TGCh a Systemau rheoli gwybodaeth, Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid, Dewis Addysgol a Gyrfaol, Llesiant Plant a Phobl Ifanc, Ymgysylltu â Disgyblion, Cymraeg mewn Addysg a Chymorth Cyflawni.

***Consortia rhanbarthol ac Adolygiad Hill***

146. Datblygwyd y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol a chytunwyd arno i ddechrau yn 2013 i gyflymu'r newidiadau a oedd eisoes ar waith. Mae'n adlewyrchu ymrwymiad i weithio rhanbarthol ac mae'n cyfleu'r strwythurau a'r dulliau gweithredu sydd eu hangen i ymgorffori'r newidiadau hyn.

147. Ym mis Tachwedd 2015, diwygiodd Llywodraeth Cymru y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, gan adlewyrchu'r datblygiadau dros y flwyddyn ddiwethaf neu fwy drwy weithredu Dyfodol Llwyddiannus, y Fargen Newydd ar gyfer ymarferwyr a'r wybodaeth am wella ysgolion a gafwyd drwy Her Ysgolion Cymru.

148. Mae'n bwysig y caiff y Model Cenedlaethol ei ystyried yn ddogfen ganllaw er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i wella canlyniadau ar gyfer dysgwyr ond gan

gydnabod bod angen hyblygrwydd er mwyn sicrhau y gall consortia rhanbarthol awdurdodau lleol ddiwallu anghenion eu hysgolion yn briodol.

149. Caiff trefniadau cyllido eu nodi yn y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol. Caiff y consortia rhanbarthol eu hariannu yn bennaf gan eu hawdurdodau lleol sy'n darparu eu cyllid craidd. Caiff nifer o grantiau gan Lywodraeth Cymru, fel y Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion hefyd eu gweinyddu drwy drefniadau consortia. Mae hefyd yn bosibl bod y consortia yn creu cyllid drwy godi tâl am rai o'r rhaglenni ac ymyriadau a gomisiynir ganddynt.

150. Disgwylir i gonsortia ddangos agoredrwydd ac eglurder wrth ddefnyddio eu cyllid, ac maent yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am eu cyllidebau a'u gwariant i'w cydbwyllgorau yn rheolaidd.

151. Mae'r trefniadau sydd ar waith drwy'r Model Cenedlaethol yn arwain at arbedion i awdurdodau lleol ac yn sicrhau gwerth gwell am arian. Gwyddom fod rhai awdurdodau lleol wedi lleihau nifer eu staff mewn ymateb i ddarpariaeth drwy gonsortia. Gwyddom fod rhai consortia, fel Consortiwm Canol De Cymru, wedi canolbwyntio'n gynnar ar eu strwythurau i'w symleiddio a gwella eu heffeithlonrwydd. Ceir tystiolaeth glir o awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth o fewn eu consortia, ond hefyd o gonsortia yn gweithio ar draws rhanbarthau, gan leihau'r posibilrwydd o ddyblygu ymdrech. Mae rhannu arfer da rhwng y rhanbarthau wedi gwella.

152. Yn y pen draw, caiff Awdurdodau Lleol a'u consortia eu dwyn i gyfrif drwy Estyn, a fydd yn cynnal arolygiad o gonsortia yn 2016. Bydd angen iddynt ymateb i Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch sut maent yn sicrhau gwerth am arian.

153. Roedd gan adolygiad Robert Hill sef *The Future Delivery of Education Services in Wales* fwy nag 80 o gamau gweithredu yn deillio ohono. Cafodd y gwaith hwn ei ymgorffori yn Gwella Ysgolion ac erbyn hyn yn Cymwys am Oes. Fel gyda'r strategaeth honno, mae'r camau gweithredu a gafodd eu cynnwys yn adolygiad Robert Hill a Gwella Ysgolion wedi bod yn rhan o'r cynllun busnes ar gyfer Addysg a Sgiliau ac mae'r gyllideb hon a chyllidebau blaenorol wedi cael eu pennu er mwyn cyflawni'r cynllun hwnnw. Mae'r rhan fwyaf o'r argymhellion gan Robert Hill bellach wedi cael eu cyflawni. Mae unrhyw gamau gweithredu sy'n weddill yn y cynllun busnes o hyd a chânt eu datblygu fel rhan o'r diwygiad parhaus mewn addysg yng Nghymru. Caiff y cyllidebau i wneud hyn eu cynnwys yn narpariaeth y gyllideb ar gyfer y Fargen Newydd a Cwricwlwm am Oes: Cwricwlwm i Gymru.

***Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon***

154. Caiff costau darparu cyrsiau hyfforddiant ac addysg gychwynnol athrawon (HAGA) eu talu gan y Darparwyr Addysg Uwch, drwy'r system ffioedd. Mae'r rhan fwyaf o'r agenda ddiwygio a nodwyd gan yr Athro Furlong yn effeithio ar

ansawdd y rhaglenni a ddarperir ac felly gellir talu amdani drwy'r ddarpariaeth gyllido bresennol. Gellir ailgyfeirio cyllid presennol a'i ddefnyddio'n wahanol er mwyn cyflwyno rhaglenni hyfforddiant athrawon wedi'u hailgynllunio.

155. Bydd angen i'r fframwaith cyfreithiol a threfniadau llywodraethu sydd ar waith newid yn sylweddol er mwyn cyflawni hyn. Byddwn yn ymgynghori ar y cynnig er mwyn sefydlu Bwrdd Achredu o fewn Cyngor y Gweithlu Addysg er mwyn cymeradwyo cyrsiau newydd ond ceir trefniadau achredu ar gyfer cyrsiau ar hyn o bryd felly mae cyfle i ailgyfeirio cyllid er mwyn talu costau'r gwaith achredu.

156. Bydd cyllid ychwanegol a ddarperir o fewn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygiad a Chymorth Athrawon i ariannu gwaith ysgolion Arloesi hefyd yn cyfrannu at drefniant partneriaeth wedi'i atgyfnerthu rhwng HAGA ac ysgolion i ddarparu rhaglenni HAGA a darparu adnoddau ymchwil ychwanegol er mwyn cefnogi gwaith HAGA ac ysgolion Arloesi.

***Datblygiad proffesiynol parhaus athrawon***

157. Dyrannwyd cyllid ychwanegol o £5.65m ar gyfer ysgolion Arloesi yn y gyllideb hon. Bydd hyn yn galluogi'r ysgolion Arloesi i gasglu tystiolaeth am anghenion datblygu'r gweithlu a datblygu a chyflwyno darpariaeth i ddiwallu'r anghenion hyn fel rhan o'r Fargen Newydd. Bydd y gwaith hwn hefyd yn ystyried anghenion y gweithlu yn y dyfodol er mwyn paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd a dechrau datblygu addysgeg ac arweinyddiaeth yn barod i'w weithredu o 2021.

158. Amcangyfrifir y bydd cost fersiwn well y Pasbort Dysgu Proffesiynol tua £0.35m, ac rydym wedi gwneud darpariaeth o fewn y llinell sylfaen i gyllido hyn drwy gyllideb Cyngor y Gweithlu Addysg.

159. Caiff swyddogaeth cofrestru graidd Cyngor y Gweithlu Addysg ei chyllido o'r ffioedd a delir gan gofrestrwyr. Mae hefyd yn ymgymryd â nifer o swyddogaethau ar ran Llywodraeth Cymru yn cynnwys talu cyllid sefydlu a chyllid rhaglenni meistr i ysgolion, gwrando apeliadau sefydlu a dosbarthu llythyrau SAC. Caiff y cyllid ar gyfer y rhain ei drosglwyddo i Gyngor y Gweithlu Addysg o'r llywodraeth drwy grant blynyddol.

160. Gwnaed ymrwymiad y byddai swyddogaethau Cyngor y Gweithlu Addysg yn destun ymgynghoriad cyn y gwneir unrhyw newid iddynt. Rwy'n bwriadu lansio ymgynghoriad maes o law ar rôl Cyngor y Gweithlu Addysg fel corff proffesiynol, ond ni chaiff unrhyw benderfyniadau eu gwneud nes y byddaf wedi clywed safbwyntiau'r rhanddeiliaid.

***Cyllid cyfalaf ar gyfer gwneud gwelliannau i adeiladau ysgolion***

161. Nod rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yw targedu buddsoddiad ar yr ysgolion hynny yn y cyflwr gwaethaf sydd â lleoedd gwag. Fodd bynnag, mae'r rhaglen hefyd yn bwriadu darparu adeiladau cynaliadwy, costeffeithiol sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif.

162. Mae'r gyllideb yn cynnwys dwy elfen; cyllideb cyfalaf llinell sylfaen o £100.8m y flwyddyn, dyraniadau cyfalaf ychwanegol, a ddaeth drwy Gyfalaf a Gedwir yn Ganolog a chyllideb benthyca wedi'i galluogi gan refeniw, a fydd yn cyfrannu £172m dros oes y rhaglen.

163. Yn 2016-17, ein llinell sylfaen ar gyfer ysgolion yr 21ain ganrif yw £100.8m, gydag arian ychwanegol yn cael ei ddyrannu o gronfeydd wrth gefn o £21.9m.

164. Ein targed cyffredinol ar gyfer Band A y rhaglen yw i 150 o ysgolion a cholegau gael eu hadnewyddu neu eu hailadeiladu o ganlyniad i'r buddsoddiad erbyn diwedd mis Ebrill 2019. Hyd yma, cafwyd cymeradwyaeth ar gyfer 86 o Achosion Cyfiawnhau Busnes / Achosion Busnes Llawn, sy'n cyfateb i 57% o darged cyffredinol y Rhaglen.

165. Ar hyn o bryd, mae gwaith adeiladu'n mynd rhagddo ar 44 o brosiectau, sy'n cyfateb i 29% o darged y Rhaglen. Cwblhawyd 21 o Gynlluniau Ysgolion yr 21ain Ganrif ac Addysg Bellach hyd yma, sy'n cyfrif am 13% o darged y Rhaglen.

166. Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol gyflwyno gwybodaeth llif arian parod ar gyfer eu priod Raglenni, a gaiff ei diweddaru bob blwyddyn. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys manylion am gyfraniadau Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a chaiff ei chymeradwyo gan y Swyddog S151, er mwyn cadarnhau bod y wybodaeth yn gywir.

167. Yn ogystal, mae'n rhaid llunio Achos Busnes unigol ar gyfer pob cynllun. Caiff y rhain eu cwblhau yn unol ag arfer gorau'r Trysorlys a chânt asesiad ar gyfer cydnawsedd strategol, fforddiadwyedd, gwerth am arian, rheoli prosiect a dull gweithredu masnachol. Ar ôl cael eu hasesu, cyflwynir yr achosion hyn gerbron panel cyfalaf cyn cael cymeradwyaeth derfynol gan y Gweinidog. Pan gaiff y llythyr cynnig ei gyflwyno, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ymrwymo i'r cytundeb hwn.

168. Caiff taliadau grant eu gwneud yn seiliedig ar waith a wnaed. Gwneir taliadau ar sawl chwarterol a chânt eu monitro yn erbyn proffil disgwyliedig. Caiff cyswllt rheolaidd ei gynnal â'r awdurdodau lleol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw faterion yn codi mewn perthynas â'r prosiect, yn cynnwys fforddiadwyedd.

### *Addysg cyfrwng Cymraeg*

169. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio cyllid o nifer o ffynonellau er mwyn rhoi eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ar waith. Ers mis Ebrill 2015, mae darparu hyfforddiant a chymorth iaith Gymraeg i ymarferwyr, canolfannau iaith, prosiectau trochi i ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 a phrosiectau wedi'u hanelu

at godi cyfraddau parhad ieithyddol, ar lefel ranbarthol a lleol ac ar lefel ysgol, yn rhan o'r rhaglen o weithgareddau a ddarperir drwy'r Grant Gwella Addysg. Gofynnir i awdurdodau lleol sicrhau bod y rhaglen o weithgareddau a ariennir gan y Grant Gwella Addysg yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodir yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

170. Mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn nodi dyhead Llywodraeth Cymru am wlad lle mae addysg a hyfforddiant cyfwng Cymraeg yn rhannau hanfodol o'r seilwaith addysgol a lle y mae pob dysgwr yn datblygu ei sgiliau iaith Gymraeg i'w lawn botensial.

171. Mae'r Strategaeth yn cynnwys targedau pum mlynedd penodol a thargedau deng mlynedd mynegol yn seiliedig ar ganlyniadau, a gaiff eu defnyddio i fonitro cynnydd wrth weithredu'r Strategaeth. Cyhoeddwyd y pumed adroddiad blynyddol ar gynnydd wrth weithredu'r Strategaeth ym mis Gorffennaf. Er na chyflawnwyd pob targed, gwnaed cynnydd mewn perthynas â phedwar ohonynt, ac mae'r niferoedd uchaf o blant saith oed bellach yn cael addysg cyfrwng Cymraeg.

172. Mae gwerthusiad cynhwysfawr o'r Strategaeth wedi'i gynnal a disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth. Bydd y gwerthusiad hwn yn pennu'r cyfeiriad yn y dyfodol a bydd angen i'r dyraniad cyllidebol yn ystod tymor nesaf y Cynulliad ystyried hyn.

173. Rydym yn diogelu ein cyllid ar gyfer addysg, yn cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, sy'n cael eu prif gyllid o lywodraeth leol. Mae'r iaith Gymraeg yn rhan hanfodol o'r broses o weithredu'r adolygiad o'r Cwricwlwm ac mae ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn rhan o'r rhwydwaith o ysgolion Arloesi sy'n datblygu'r cwricwlwm a'r Fargen Newydd. Rydym wedi gwneud gostyngiadau mewn rhai meysydd lle ceir gweithgareddau y tu allan i ysgolion lle y gellir rheoli'r effaith, er mwyn sicrhau y gellir blaenoriaethu gwariant i ysgolion.

174. Cyhoeddwyd adolygiad gweinidogol, Codi Golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion ym mis Gorffennaf 2013. Y prif argymhelliad oedd sefydlu endid cenedlaethol i arwain Cymraeg i Oedolion yn strategol ar lefel genedlaethol. Bu Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn llwyddiannus mewn proses grant gystadleuol ac mae bellach yn gartref i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol newydd.

175. Nododd y Grŵp Adolygu hefyd yr angen i leihau nifer y darparwyr er mwyn osgoi dyblygu, gwella gwerth am arian a sicrhau bod gan yr holl ddarparwyr lefel ddigonol o ddarpariaeth i ddatblygu arbenigedd ac elwa o well effeithlonrwydd drwy arbedion maint. Mae'r broses resymoli hon wrthi'n cael ei chynnal gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

176. Cyfanswm y gyllideb a ddyrannwyd i gefnogi Cymraeg i Oedolion yn 2016-17 yw £10.535m. Mae hyn yn ostyngiad o £0.5m yn erbyn ein dyraniad gwreiddiol ar gyfer y sector. Yn ystod y cyfnod presennol o newid, mae'r gyllideb yn ariannu'r chwe chanolfan Cymraeg i Oedolion bresennol hyd at fis Gorffennaf

2016 a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol newydd. O fis Awst 2016, bydd y gyllideb hon yn cefnogi gweithgareddau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn unig, felly disgwylir y bydd modd rheoli'r gostyngiad.

***Anghenion Dysgu Ychwanegol***

177. Cyllidebwyd tua £76,000 yn 2015-16 ar gyfer gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyflwyno Bil drafft, ond fe'i defnyddiwyd wedi hyn i dalu cost cynnal ymgynghoriad, ac ati. Rydym yn rhagweld y bydd angen darpariaeth gyllidebol debyg ar gyfer 2016-17 i gefnogi'r broses o ddatblygu'r Bil drafft ymhellach, is-ddeddfwriaeth ddrafft a'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft cysylltiedig yn barod i'w cyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol gyn gynted â phosibl.

178. Heb ystyried cyflwyno a chyflawni'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol yn llwyddiannus, mae angen buddsoddiad sylweddol i gefnogi'r broses o weithredu'r diwygiadau ehangach ledled Cymru. Yn ddiweddar, gwnaethom gwblhau dwy astudiaeth hanfodol i ddeall yn well ofynion datblygu'r gweithlu addysg cyffredinol; ac asesu adnoddau gwasanaethau cymorth arbenigol i gefnogi dysgwyr ag AAA. Mae ein gweithgarwch datblygu polisi yn canolbwyntio ar ddiwallu'r anghenion presennol hyn yn ogystal â sicrhau bod y sylfaen gywir ar waith i gefnogi system ddeddfwriaethol newydd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol.

179. Mae gwaith yn mynd rhagddo bellach, yn gysylltiedig â'n dull gweithredu ar gyfer Ysgolion Arloesi'r Fargen Newydd, i sicrhau bod ein gweithlu yn datblygu gwybodaeth a sgiliau mewn perthynas â gwahaniaethu, asesu, metawybyddiaeth ac AAA. Rydym hefyd wedi dechrau ar y broses o gyflwyno ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion er mwyn sicrhau bod gan ein gweithlu y sgiliau sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod dysgwyr wrth wraidd unrhyw gymorth arfaethedig a ddarperir.

180. Drwy sicrhau bod ein gweithlu yn meddu ar yr adnoddau angenrheidiol, a'r hyder i ddefnyddio'r adnoddau hyn, byddwn yn lleihau'r angen i atgyfeirio unigolion at wasanaethau cymorth arbenigol. Bydd hyn, yn ei dro, hefyd yn gwella gallu gwasanaethau arbenigol i ganolbwyntio ar y dysgwyr hynny ag anghenion mwy cymhleth.

181. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi llawer o bwyslais ar sicrhau bod y diwygiadau deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gywir - rydym yn cynnig system newydd a gwahanol iawn. Mae angen i'r dull gweithredu newydd fod yn seiliedig ar wybodaeth lawn ac yn ymarferol ac mae angen iddo gael cefnogaeth y rhai y bydd yn effeithio arnynt ac y bydd yn ofynnol iddynt ei weithredu. Fel y cyfryw, mae'r gweithgarwch ymgysylltu rydym yn ei gyflawni ac y byddwn yn parhau i'w gyflawni yn ystod y cyfnod ymgynghori yn sylweddol.

182. Caiff tua £46,000 ei wario'n benodol ar ymgynghori ar y Bil drafft. Nid yw'r costau a fyddai wedi codi pe byddai'r Bil wedi'i gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystod 2015-16 wedi'u cyfrifo ond mae'n debygol y byddai'r

cyllid a ddyrannwyd at ddibenion ymgynghori yn hytrach wedi'i ddefnyddio i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â hynt y Bil.

183. Nid yw'r astudiaeth gan Deloitte a lywiodd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil drafft wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol yn 2016-17. Prif nod astudiaeth Deloitte oedd nodi gwariant llinell sylfaen cyfredol ar AAA er mwyn gweithredu fel man cychwyn ar gyfer modelu costau yn y dyfodol pe byddai fframwaith deddfwriaethol newydd yn cael ei gyflwyno. Er bod yr astudiaeth wedi bod yn ddefnyddiol mewn sawl ffordd, mae hefyd wedi amlygu'n glir iawn yr anawsterau o ran nodi gwariant manwl a phenodol mewn perthynas â darpariaeth AAA.

184. Fodd bynnag, gwyddom fod rhai awdurdodau lleol eisoes yn gweithredu llawer o elfennau'r model newydd arfaethedig o fewn y fframwaith deddfwriaethol cyfredol ac o fewn cyllidebau cyfredol. Felly, defnyddir y ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer 2016-17 i gynnal gweithgarwch i nodi astudiaethau achos arfer gorau sy'n dangos hyn ac a fydd yn helpu awdurdodau eraill i newid i'r system newydd. Bwriedir i'r gweithgarwch hwn adeiladu ar y wybodaeth a nodir yn astudiaeth Deloitte.

185. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl bwysig y mae Seicolegwyr Addysg yn ei chwarae wrth fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu plant a phobl ifanc mewn addysg yng Nghymru. Mae eu gwaith yn helpu i gefnogi lles a gwella dysgu.

186. Ym mis Medi, cytunodd Llywodraeth Cymru i gyllido'r broses o gyflwyno darpariaeth rhaglen yr Adran Seicoleg Addysg ym Mhrifysgol Caerdydd yn uniongyrchol. Bydd ein cyllid yn sicrhau darpariaeth barhaus o hyfforddiant ar gyfer seicolegwyr addysg yng Nghymru am y tair blynedd nesaf, gyda'r posibilrwydd o ymestyn y trefniant hwn am ddwy flynedd arall. Bydd hyn yn sicrhau y bydd o leiaf dair carfan newydd o ddarpar hyfforddeion yn dechrau ar raglen yr Adran Seicoleg Addysg o fis Medi 2015.

187. Darperir cyllid i Brifysgol Caerdydd drwy ddyfarnu grant a fydd yn talu ffioedd y cwrs a bwrsari penodol o £12,600 fesul hyfforddai, hyd at uchafswm o 10 hyfforddai.

188. Mae trafodaethau â CCAUC yn mynd rhagddynt ynghylch sut y gellir datblygu model cynaliadwy ar gyfer darpariaeth tymor hwy i Seicolegwyr Addysg. Fodd bynnag, mae angen ystyried hyn ochr yn ochr â'n cynigion ar gyfer newid deddfwriaethol a'r ddarpariaeth ar gyfer pob math o hyfforddiant arbenigol sy'n angenrheidiol i gefnogi dysgwyr ag AAA.

189. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi bellach i ddiwyg model strategol a chynaliadwy ar gyfer darpariaeth hyfforddiant arbenigol; yn cynnwys pa gymorth sydd ei angen ar ddarpar hyfforddeion i ymgymryd â'r hyfforddiant arbenigol hwnnw. Bydd system newydd yn ystyried amrywiaeth o arbenigwyr ac yn canolbwyntio ar sicrhau bod gennym y bobl gywir, sy'n meddu ar y sgiliau cywir yn y lleoedd cywir ar yr adeg gywir i helpu ein dysgwyr a'n hymarferwyr.

### *Cynnwys a chynorthwyo disgyblion*

190. Mae'r canllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion wrthi'n cael eu hadolygu a disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2016. Mae'r ddogfen yn dwyn ynghyd bolisïau o bob rhan o'r sector addysg ac ni fydd yn ceisio cyflwyno unrhyw gyfrifoldebau ariannol newydd, na rhwymedigaethau polisi newydd, i ysgolion nac awdurdodau lleol. Dylid parhau i gyflawni unrhyw oblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â rhoi'r cyngor a geir yn y ddogfen ar waith drwy'r ffynonellau cyllido sy'n benodol i'r maes polisi hwnnw.

191. Dylid parhau i gynnig darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol drwy Grant Cynnal Refeniw yr awdurdod lleol. Mae grŵp gorchwyl a gorffen Addysg Heblaw yn yr Ysgol wedi'i sefydlu er mwyn ystyried sut i gyflawni'r argymhellion a wnaed gan Brifysgol Caeredin yn ei hadroddiad ar Addysg Heblaw yn yr Ysgol ac achosion o wahardd o'r ysgol, yn ogystal ag yn adroddiad blynyddol Estyn ar gyfer blwyddyn academaidd 2013/14 ac adolygiadau thematig dilynol. Ni wnaed unrhyw ymrwymiadau ariannol mewn perthynas â gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer 2016-17.

### *Addysg bellach*

192. Derbyniwyd ac adolygwyd cynlluniau'r ddarpariaeth ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16 ar gyfer pob coleg addysg bellach. Mae hyn yn rhoi gwell syniad o sut y mae gostyngiadau i ddyraniadau cyllid i lefelau 2015/16 yn effeithio ar y ddarpariaeth yng Nghymru.

193. Disgwylir i nifer y dysgwyr llawn amser arfaethedig yng Nghymru ostwng dros 2,000 o ddysgwyr (4.57 y cant) o flynyddoedd academaidd 2014/15 a 2015/16. Fodd bynnag, mae hyn yn unol â gostyngiad disgwyliedig o dueddiad demograffig nifer y bobl ifanc 16-19 oed.

194. Yn ôl y disgwyl, mae effaith y gostyngiad mewn cyllid ar gyfer myfyrwyr rhan amser yn llawer uwch. Disgwylir i nifer yr oriau rhan amser ostwng tua 800,000 o oriau (21.88 y cant) yn 2015/16. Os bydd y cwrs rhan amser cyfartalog yn tua 100 o oriau fesul dysgwr, mae hyn yn cyfateb i 8,000 o ddysgwyr, er y disgwylir y bydd y mwyafrif o'r cyrsiau rhan amser a ddaw i ben yn gyrsiau byrrach ac felly gallai'r nifer hwn godi'n sylweddol.

195. Mae'r wybodaeth a rennir gan gadeirydd Cyfarwyddwyr Cyllid ColegauCymru yn dangos bod y sector yn disgwyl i tua 850 o bobl gael eu diswyddo o ganlyniad i ostyngiad mewn cyllidebau erbyn 2015/16.

196. Cafodd gweithgor bach ei gynnull gan swyddogion gyda'r Sector Addysg Bellach (AB) i drafod yr heriau a wynebir yn dilyn y cyhoeddiad ynghylch dyraniadau 2015/16. Roedd aelodau'r gweithgor yn cynnwys cymysgedd o Benaethiaid, Cyfarwyddwyr Cyllid ac Uwch Reolwyr Cwricwlwm. Yn dilyn hyn, anfonwyd llythyr at y sector yn amlinellu cynigion i helpu i reoli'r heriau hynny.

197. Cyfarfu'r Dirprwy Weinidog Sgiliau â phob Pennaeth AB a Chadeirydd Llywodraethwyr ar 6 Gorffennaf 2015 i drafod yr heriau sy'n wynebu colegau addysg bellach yng Nghymru. Yn dilyn y cyfarfod hwn, sefydlodd ColegauCymru Weithgor Datrysiadau Creadigol i ddatblygu gwaith i sicrhau y gall colegau ymateb i'r heriau hyn gyda chymorth gweithredol Llywodraeth Cymru.

198. Mae'r gweithgor wedi cyflwyno papur fel sail ar gyfer trafodaeth bellach â swyddogion. Bwriedir i'r mesurau hyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd tra'n cynnal neu'n gwella profiad myfyrwyr. Bydd swyddogion yn adolygu'r argymhellion ac yn eu trafod ymhellach â ColegauCymru cyn cynnig cyngor pellach ar bob argymhelliad unigol.

199. Ymgysylltodd Llywodraeth Cymru, drwy'r fframwaith cynllunio a chyllido, â Sefydliadau AB i drafod eu cynlluniau er mwyn sicrhau nad yw ehangder y dewis ac ansawdd y dysgu yn gostwng a bod darparwyr yn cyflawni blaenoriaethau Gweinidogion.

200. Mae colegau wedi cael eu hannog, drwy rwydweithiau Penaethiaid a Chyfarwyddwyr Cyllid, a fynychir gan swyddogion Llywodraeth Cymru, i gwblhau cynlluniau senario ar gyfer 2016-17 bod canlyniad yr adolygiad o wariant yn hysbys. Cymhwyswyd diogelwch arian gwastad at gyllidebau addysg bellach ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17. Fodd bynnag, mae colegau yn dal i wynebu pwysau gan gyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn cyflogwyr a chwyddiant cyffredinol yng nghyflog staff ac maent wedi bod yn cynllunio ar gyfer hynny. Caiff dyraniadau blwyddyn academaidd 2016/17 eu cyfrifo a'u cyfleu i golegau cyn gynted â phosibl.

201. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn monitro iechyd ariannol pob coleg deirgwaith y flwyddyn, yn cynnwys asesu gallu sefydliadau i reoli toriadau, a adolygir ochr yn ochr â'r dyraniadau cyllido. Caiff pob sefydliad ei ddadansoddi gan ddefnyddio dangosyddion proffidioldeb a hylifedd. Lle y caiff problemau eu nodi, cânt eu trafod â'r colegau unigol a chaiff cynlluniau adfer eu rhoi ar waith gan y coleg os bydd angen.

202. Yn sgil blaenoriaethu darpariaeth ar gyfer dysgwyr 16-19 oed (sy'n ymestyn uwchlaw ein rhwymedigaeth statudol i bobl ifanc 16-18 oed i gyfrif am ddysgwyr sy'n symud o flwyddyn o astudiaeth academaidd mewn ysgol cyn symud i gwrs addysg bellach dwy flynedd) lleihaodd effaith gostyngiadau cyllidebol yn 2014-15 a 2015-16 yn bennaf mewn darpariaeth ran amser sy'n cynnwys dysgwyr hŷn yn bennaf. Fodd bynnag, roedd diogelwch hefyd ar gyfer cyrsiau sgiliau sylfaenol a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill.

203. Cafodd darparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned ostyngiad o 37.5% yn eu dyraniadau cyllid ar gyfer 2014/15, a gostyngiad pellach o 2.6% yn y flwyddyn academaidd 2015/16. O ganlyniad, gofynnwyd i ddarparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned ganolbwyntio eu darpariaeth a ariennir gan y llywodraeth ar rifedd i oedolion, llythrennedd i oedolion, Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill a llythrennedd digidol.

### *Cymorth myfyrwyr*

204. Mae'r tabl canlynol yn dangos y gwariant rhagamcanol ar gyfer pob elfen o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb o'r enw Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015-16. Byddwn yn adolygu'r gyllideb hon sy'n seiliedig ar alw drwy gydol y flwyddyn ac yn blaenoriaethu'r gyllideb sydd ar gael os bydd angen.

| | **2015-16 £m** |
|---|---|
| Grantiau a ffioedd rhan amser | 9.5 |
| Grantiau wedi'u Targedu | 25.0 |
| Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (AU) | 131.0 |
| Grant ffioedd dysgu | 239 |
| Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (AB) | 7 |
| Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (EUI) | 0.072 |
| Grant Dysgu Llywodraeth Cymru - ffioedd a llety | 0.008 |
| LCA | 23.0 |
| Ad-dalu grant Dysgu Llywodraeth Cymru | (1.6) |


205. Caiff Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn Addysg Bellach eu gweinyddu gan sefydliadau unigol yn ôl disgresiwn. Mae gofal plant a chludiant yn feysydd gwariant mawr, ond ni chafwyd unrhyw adborth eto gan sefydliadau o ran effaith bosibl y Cynllun Teithio am Bris Gostyngol i Bobl Ifanc na'r cynllun peilot Care to Learn. Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2016/17, rydym wedi gorfod gostwng cyllid 10% fel rhan o'r broses o flaenoriaethu cyllid ym mhob rhan o'r Prif Grŵp Gwariant.

### *Addysg uwch*

206. Y wybodaeth ganlynol yw'r rhagolwg diweddaraf (cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft) ar gyfer incwm i'r sector AU yng Nghymru.

| **Incwm rhagamcanol Sefydliadau Addysg Uwch Cymru, gyda ffioedd a grant ffioedd dysgu hysbys ar gyfartaledd, telerau arian parod (Blwyddyn Ariannol)** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **£Miliwn** | **10-11** | **11-12** | **12-13** | **13-14** | **14-15** | **15-16** |
| Grantiau corff cyllido | 428 | 405 | 324 | 253 | 177 | 126 |
| Ffioedd Israddedigion / TAR llawn amser | 225 | 235 | 308 | 425 | 513 | 565 |
| *lefel ffioedd flaenorol* | *225* | *235* | *242* | *247* | *255* | *262* |
| *incwm ffioedd ychwanegol uwch* | *0* | *0* | *38* | *100* | *147* | *173* |
| *cyfraniad Saesneg* | *0* | *0* | *29* | *77* | *111* | *129* |
| Ffioedd eraill a chontractau addysg | 167 | 186 | 188 | 182 | 182 | 188 |
| Grantiau/contractau ymchwil | 163 | 167 | 173 | 183 | 195 | 201 |
| Incwm arall | 249 | 266 | 275 | 278 | 290 | 299 |
| **Cyfanswm** | **1,231** | **1,260** | **1,268** | **1,321** | **1,356** | **1,379** |
| | | | | | | |

| **£Miliwn** | **16-17** | **17-18** | **18-19** | **19-20** | **20-21** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Grantiau corff cyllido | 85 | 85 | 85 | 85 | 85 | |
| Ffioedd Israddedigion / TAR llawn amser | 590 | 611 | 627 | 640 | 651 | |
| *lefel ffioedd flaenorol* | *272* | *281* | *288* | *294* | *299* | |
| *incwm ffioedd ychwanegol uwch* | *181* | *188* | *192* | *194* | *196* | |
| *cyfraniad Saesneg* | *137* | *142* | *147* | *152* | *157* | |
| Ffioedd eraill a chontractau addysg | 194 | 201 | 207 | 214 | 221 | |
| Grantiau/contractau ymchwil | 208 | 215 | 221 | 229 | 236 | |
| Incwm arall | 309 | 319 | 329 | 340 | 351 | |
| **Cyfanswm** | **1,386** | **1,430** | **1,469** | **1,506** | **1,543** | |
| Ffynhonnell: Rhagolygon Llywodraeth Cymru, cofnod cyllid HESA a nifer y myfyrwyr wedi'u rhagamcanu | | | | | | |




207. Mae hyn yn dangos bod yr incwm i'r sector AU yn parhau i gynyddu er gwaethaf cyfnod parhaus o galedi. Mae'r sefyllfa ariannol hon yn cadarnhau canfyddiadau adroddiadau a luniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a Phwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

208. Hefyd, mae'r nifer sy'n cael eu recriwtio i Brifysgolion yng Nghymru yn parhau i godi ac mae dyled myfyrwyr yng Nghymru yn llawer is nag ar gyfer myfyrwyr mewn gwledydd eraill yn y DU.

209. Mae nifer y myfyrwyr sy'n dod i Gymru yn fwy na nifer y myfyrwyr sy'n gadael. Mae'r rhagolygon diweddaraf yn dangos, yn 2015-16, y bydd £50m yn fwy o gyllid yn dod i mewn i'r system yng Nghymru nag a fydd yn mynd allan mewn

grant ffioedd dysgu i sefydliadau y tu allan i Gymru a rhagwelir y bydd hyn yn parhau am y dyfodol rhagweladwy.

210. Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd mewn incwm cyffredinol i'r sector AU, bydd unrhyw incwm ychwanegol gan fyfyrwyr nad ydynt yn dod o Gymru yn llifo'n uniongyrchol i'r Sefydliadau Addysg Uwch ac nid drwy CCAUC. Mae hyn yn golygu gan fod mwy o'r hyn a oedd yn gyllid craidd CCAUC bellach yn cael ei ddefnyddio i dalu cost ffioedd dysgu uwch ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru, fod gan CCAUC lai o arian i'w ddosbarthu i sefydliadau. Yn sgil yr newid hwn mewn methodoleg gyllido, bu'n rhaid newid y ffordd y mae CCAUC yn cyllido'r sector AU yn llwyr. Yn hytrach na bod y Cyngor Cyllido yn gyfrifol am ddosbarthu tua 30% o gyllid y sector, bydd y swm hwn yn lleihau i tua 10% yn 2015/16.

211. Mae Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 ("Deddf 2015") yn sefydlu fframwaith rheoleiddiol diwygiedig ar gyfer addysg uwch yng Nghymru. Nid yw'r trefniadau newydd yn dibynnu ar CCAUC yn rhoi cymorth ariannol i sefydliadau o dan Ran 2 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 na Rhan 3 o Ddeddf Addysg 2005. Ni chaiff y system reoleiddiol newydd ei gweithredu'n llawn tan 2017/18.

212. Mae Deddf 2015 yn darparu ar gyfer cyfnod pontio a ddechreuodd ar 1 Awst 2015 ac a ddaw i ben ar 31 Awst 2017. O dan y trefniadau pontio, caiff sefydliadau y mae eu cynlluniau ffioedd wedi'u cymeradwyo o dan Ddeddf Addysg Uwch 2004 ("Deddf 2004") eu trin, at ddibenion cyfyngedig, fel sefydliadau a reoleiddir o dan Ddeddf 2015 yn ystod y cyfnod pontio.

213. Ni ddylai'r trefniadau pontio arwain at oblygiadau newydd ar gyfer sefydliadau oni fyddant yn methu â chydymffurfio â'r terfynau ffioedd a nodwyd yn eu cynlluniau a gymeradwywyd neu oni fydd CCAUC yn ystyried bod ansawdd eu haddysg yn annigonol neu mewn perygl o fod yn annigonol.

214. Mae rhai o swyddogaethau CCAUC wedi'u rhoi ar waith cyn i'r system reoleiddiol newydd gael ei gweithredu'n llawn. Yn ystod y cyfnod pontio, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu gorchymyn CCAUC i roi adroddiadau iddynt ar gydymffurfiaeth sefydliadau â therfynau ffioedd (naill ai'n gyffredinol neu gan sefydliad penodol) a/neu ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran sefydliadau a reoleiddir (eto, naill ai'n gyffredinol neu mewn perthynas â sefydliad penodol a reoleiddir).

215. Mewn sawl ffordd, mae'r system reoleiddiol a sefydlwyd gan Ddeddf 2015 yn darparu ar gyfer parhad â'r gyfundrefn reoleiddiol a sefydlwyd o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, Deddf Addysg Uwch 2004 a Deddf Addysg 2005. O ganlyniad, byddai rhai o gostau gweithredu'r system reoleiddiol newydd wedi codi o dan y trefniadau blaenorol.

216. Nodwyd y goblygiadau sy'n deillio o'r system newydd o reoliadau rheoleiddiol a sefydlwyd gan Ddeddf 2015 yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a baratowyd ar gyfer Bil Addysg Uwch (Cymru) pan gafodd ei gyflwyno i'r Cynulliad ym mis Mai

2014. Mae'r amcangyfrifon cyfredol ar gyfer costau ac achosion o weithredu'r gyfundrefn newydd fel a ganlyn:

| | **2016/17 £m** |
|---|---|
| Cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad | 0.331 |
| Monitro a gwerthuso cynllun ffioedd a mynediad | 0.366 |
| Asesu ansawdd | 0.434 |
| Sicrwydd ariannol | 0.574 |
| Is-ddeddfwriaeth | 0 |
| Datblygu, hyfforddi a goruchwylio | 0.99 |
| **CYFANSWM** | **1.804** |
| Llywodraeth Cymru | 0.64 |
| CCAUC | 0.199 |
| Sefydliadau | 1.541 |
| **CYFANSWM** | **1.804** |

217. Mae'r tabl canlynol yn dangos y gwariant gwirioneddol ar gyfer y grant ffioedd dysgu ers 2012-13, 13-14 a 14-15 a'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer 2015-16 a 2016-17.

| | **2012-13 £m** | **2013-14 £m** | **2014-15 £m** | **2015-16 £m** | **2016-17 Amcangyfrif £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| Grant ffioedd dysgu a dalwyd i Sefydliadau yng Nghymru | 46.4 | 84.3 | 118.5 | 152.0 | 162.4 |
| Grant ffioedd dysgu a dalwyd i sefydliadau yn y DU | 16.5 | 47.7 | 75.8 | 89.0 | 94.4 |
| **Cyfanswm taliadau'r grant ffioedd dysgu** | **62.8** | **132.0** | **194.3** | **241.0** | **256.8** |

218. Mae'r rhagolygon yn unol â'r disgwyliadau ac o fewn ffiniau costau amcangyfrifedig gwreiddiol y cynllun. Yn ogystal, mae'r incwm i'r sector AU hefyd yn parhau i gynyddu.

219. Mae adroddiadau a luniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a Phwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cadarnhau bod y system bresennol yn gynaliadwy dros oes y Llywodraeth hon ac i mewn i 2016-17. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn ategu ein safbwynt, er gwaethaf caledi, fod incwm i'r sector yn parhau i gynyddu ac y bydd yn parhau i gynyddu, bod y nifer sy'n cael eu

recriwtio i Brifysgolion yng Nghymru yn parhau i godi a bod dyled myfyrwyr yng Nghymru yn llawer is nag mewn gwledydd eraill yn y DU.

220. Gofynnodd y pwyllgor am esboniad o'r hyn a oedd yn cael ei gyllido o'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb amrywiol ar gyfer addysg uwch. Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Refeniw Addysg Uwch yn cyllido sefydliadau addysg uwch drwy CCAUC. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer gwaith ymchwil, astudiaethau rhan amser, pynciau drud a'r Coleg Cenedlaethol. Yn ogystal â'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon, caiff cyllid ei ddarparu i CCAUC hefyd drwy Linell Wariant yn y Gyllideb Er Mwyn ein Dyfodol, a gaiff ei gyfuno â'r cyllid refeniw gan fod Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd bellach wedi'u prif ffrydio.

221. Y Ddarpariaeth Gyllidebol ar gyfer Benthyciadau Cynnal a Chadw yw'r tâl anariannol sy'n gysylltiedig â benthyciadau myfyrwyr. Mae hyn yn cwmpasu'r benthyciadau a gafodd eu dileu a'r darpariaethau a wneir bob blwyddyn ar gyfer benthyciadau na ddisgwylir iddynt gael eu had-dalu a'r 'cymorthdaliadau llog', sef y gwahaniaeth rhwng y gyfradd llog a godir ar y myfyriwr a'r llog y gellid bod wedi'i ennill ar yr arian hwnnw pe byddai'r Trysorlys wedi'i gadw.

222. Gwariant Cyfalaf a Reolir yn Flynyddol ar Fenthyciadau Myfyrwyr yw'r benthyciadau ffioedd a chynhaliaeth a roddir yn ystod y flwyddyn, yr ad-daliadau a'r llog a ychwanegir at y benthyciadau y flwyddyn honno.

223. Cyllideb Gwariant Anariannol a Reolir yn Flynyddol yw Gwariant Refeniw a Reolir yn Flynyddol ar Fenthyciadau Myfyrwyr, ac mae'n cynnwys dad-ddirwyn neu ryddhau'r darpariaethau a'r benthyciadau a gaiff eu dileu pan gymerir y benthyciad, wrth i'r blynyddoedd fynd heibio ac wrth i'r ddarpariaeth ar gyfer y benthyciad hwnnw gael ei defnyddio.

224. Gofynnodd y pwyllgor hefyd am wybodaeth yn ymwneud â pholisi Llywodraeth Cymru ar werthu'r llyfr benthyciadau. Nid yw'n fwriad gan Lywodraeth Cymru werthu unrhyw ran o lyfr benthyciadau myfyrwyr Cymru ar hyn o bryd. Nid yw gwerthiant arfaethedig y gyfran gyntaf o lyfr benthyciadau incwm yn Lloegr yn cynnwys unrhyw fenthyciadau o unrhyw un o'r gweinyddiaethau datganoledig. Yn ogystal, mae'r rheolau presennol ar werthu ased yn nodi'n glir y caiff yr elw o unrhyw werthiant ei roi'n uniongyrchol i Drysorlys Ei Mawrhydi - ni fyddai unrhyw fudd ariannol i gyllideb Llywodraeth Cymru.

225. Ar y cam hwn, mae goblygiadau unrhyw werthiant yn Lloegr i werth llyfr benthyciadau myfyrwyr yng Nghymru yn anhysbys. Mae nifer o senarios posibl ac addasiadau cyfrifyddiaeth cymhleth, y bydd angen ymchwilio'n llawn iddynt unwaith y bydd manylion y gwerthiant yn Lloegr yn hysbys.

226. Cafodd cronfa 'galedi' myfyrwyr y Gronfa Ariannol Wrth Gefn gwerth £2m ei dirwyn i ben ar ôl Blwyddyn Academaidd 2014/15 fel rhan o ostyngiadau cyllidebol blaenorol. Mae sefydliadau addysg uwch yng Nghymru wedi manteisio ar incwm ffioedd dysgu uwch ers 2012/13 ynghyd ag incwm yn sgil nifer gynyddol o fyfyrwyr rhyngwladol, ac felly gallant sefydlu eu cronfeydd caledi eu hunain. Ers hynny, mae Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru wedi

cadarnhau eu bod wedi sefydlu prosesau mewnol er mwyn helpu myfyrwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol. Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn parhau i gael y Gronfa Ariannol Wrth Gefn am fod ei darpariaeth yn gwbl ran amser ac nad yw wedi llwyddo i gael gafael ar fwy o incwm o ffioedd.

**Crynodeb**

227. Caiff y Gyllideb Ddrafft ar gyfer Addysg a Sgiliau ar gyfer 2016-17 ei chyflwyno i'r Pwyllgor i'w hystyried.

| EDUCATION AND SKILLS MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG) | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| RESOURCE BUDGET - Departmental Expenditure Limit | | | | | | | |
| SPA | Actions | Budget Expenditure Line (BEL) | 2014-15 Outturn £000 | 2015-16 Forecast outturn as at Period 8 £000 | 2015-16 Supplementary Budget June 2015 £000 | 2015-16 Revised baseline £000 | 2016-17 Draft budget £000 |
| Education & Training Standards | Literacy & Numeracy | Literacy & Numeracy | 8,203 | 4,776 | 4,512 | 4,512 | 4,456 |
| | | **ACTION Total** | **8,203** | **4,776** | **4,512** | **4,512** | **4,456** |
| | Curriculum | Foundation Phase | 99,080 | 1,851 | 1,851 | 1,851 | 1,851 |
| | | Curriculum & Assessment | 27,975 | 22,917 | 31,555 | 26,055 | 10,299 |
| | | 14-19 Learning in Wales | 10,240 | -184 | 0 | 0 | 0 |
| | | Curriculum Review and Schools Challenge Cymru | 0 | 0 | 0 | 0 | 20,400 |
| | | **ACTION Total** | **137,295** | **24,584** | **33,406** | **27,906** | **32,550** |
| | Teaching & Leadership | Teacher Development and Support | 10,772 | 16,868 | 15,956 | 15,956 | 21,221 |
| | | Initial Treacher training | 4,685 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | **ACTION Total** | **15,457** | **16,868** | **15,956** | **15,956** | **21,221** |
| | Qualifications | Qualifications inc Welsh Bacc | 5,194 | 7,256 | 7,903 | 7,903 | 8,169 |
| | | Qualifications Wales depriciation | 0 | 44 | 0 | 0 | 0 |
| | | **ACTION Total** | **5,194** | **7,300** | **7,903** | **7,903** | **8,169** |
| | Post- 16 Education | Further Education Provision | 415,263 | 400,177 | 400,177 | 400,177 | 400,177 |
| | | Work Based Learning | 93,761 | 106,808 | 106,808 | 106,308 | 111,308 |
| | | Mergers and collaboration | 219 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | FE Policy Development | 944 | 1,066 | 1,066 | 1,066 | 1,066 |
| | | **ACTION Total** | **510,187** | **508,051** | **508,051** | **507,551** | **512,551** |
| | Higher Education | HEFCW-Running Costs | 2,768 | 2,768 | 2,768 | 2,768 | 2,491 |
| | | Higher Education Revenue | 330,595 | 94,473 | 98,610 | 98,610 | 57,510 |
| | | Higher Education Receipts | -2,820 | -2,798 | -2,798 | -2,798 | -2,798 |
| | | For Our Future - Coleg Ffederal & UHOVI | 32,304 | 30,498 | 30,498 | 30,498 | 30,498 |
| | | HEFCW Depreciation | 82 | 82 | 82 | 82 | 82 |
| | | **ACTION Total** | **362,929** | **125,023** | **129,160** | **129,160** | **87,783** |
| | Education Standards | School Governance | 0 | 1,376 | 1,738 | 1,738 | 1,353 |
| | | School Standards Support | 2,108 | 1,362 | 1,364 | 1,364 | 1,394 |
| | | School Effectiveness Grant | 28,275 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | School Improvement Grant | 0 | 142,594 | 141,021 | 141,021 | 134,782 |
| | | **ACTION Total** | **30,383** | **145,332** | **144,123** | **144,123** | **137,529** |
| | Pupil Deprivation Grant | Pupil Deprivation Grant | 69,122 | 81,902 | 82,046 | 82,046 | 89,246 |
| | | **ACTION Total** | **69,122** | **81,902** | **82,046** | **82,046** | **89,246** |
| | ICT & Information Management Systems | ICT & IMS Programme | 10,505 | 6,810 | 6,935 | 6,935 | 6,935 |
| | | **ACTION Total** | **10,505** | **6,810** | **6,935** | **6,935** | **6,935** |
| | | **SPA Total** | **1,149,275** | **920,646** | **932,092** | **926,092** | **900,440** |

**Annex 1**

| SPA | Actions | Budget Expenditure Line (BEL) | 2014-15 Outturn £000 | 2015-16 Forecast outturn as at Period 8 £000 | 2015-16 Supplementary Budget June 2015 £000 | 2015-16 Revised baseline £000 | 2016-17 Draft budget £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Skilled Workforce | Employment & Skills | Employment & Skills | 28,209 | 26,053 | 26,290 | 23,890 | 22,848 |
| | | **ACTION Total** | **28,209** | **26,053** | **26,290** | **23,890** | **22,848** |
| | Youth Engagement & Employment | Youth Engagement & Employment | 18,822 | 15,960 | 15,813 | 15,813 | 17,214 |
| | | **ACTION Total** | **18,822** | **15,960** | **15,813** | **15,813** | **17,214** |
| | Educational & Careers Choice | Careers Wales | 28,300 | 21,400 | 20,000 | 20,000 | 18,000 |
| | | **ACTION Total** | **28,300** | **21,400** | **20,000** | **20,000** | **18,000** |
| | | **SPA Total** | **75,331** | **63,413** | **62,103** | **59,703** | **58,062** |
| Improving Wellbeing, Reducing Inequality & Increasing Participation | Wellbeing of Children & Young People | Spec. Placements/Students with Learning Difficulties FEIs | 11,080 | 12,010 | 11,481 | 11,481 | 11,481 |
| | | School Based Counselling | 6 | 18 | 80 | 80 | 0 |
| | | Food & Drink in Schools | 3,119 | 3,070 | 3,185 | 3,185 | 3,230 |
| | | Additional Learning Needs | 793 | 1,836 | 2,786 | 2,786 | 2,786 |
| | | **ACTION Total** | **14,998** | **16,934** | **17,532** | **17,532** | **17,497** |
| | Post-16 Learner Support | Welsh Government Learning Grant (was Assembly Learning Grant) | 195,778 | 432,980 | 422,483 | 422,483 | 453,583 |
| | | SLC/HMRC Administration Costs | 13,731 | 12,491 | 8,338 | 8,338 | 8,244 |
| | | Maintenance Loans Res Budget Prov | 106,787 | 8,616 | 106,849 | 106,849 | 106,849 |
| | | Targeted Awards | 9,009 | 7,760 | 7,004 | 7,004 | 6,297 |
| | | **ACTION Total** | **325,305** | **461,847** | **544,674** | **544,674** | **574,973** |
| | Pupil Engagement | Tackling Disaffection | 151 | 320 | 658 | 658 | 658 |
| | | Grants for the education of Travellers children | 1,044 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | Minority Ethnic Acheivement Grant | 9,216 | -389 | 0 | 0 | 0 |
| | | **ACTION Total** | **10,411** | **-69** | **658** | **658** | **658** |
| | | **SPA Total** | **350,714** | **478,712** | **562,864** | **562,864** | **593,128** |
| Welsh Language | Welsh in Education | Welsh in Education | 21,047 | 18,549 | 18,599 | 18,599 | 18,681 |
| | | **ACTION Total** | **21,047** | **18,549** | **18,599** | **18,599** | **18,681** |
| | Welsh Language | Welsh Language | 5,688 | 5,125 | 5,259 | 5,259 | 3,964 |
| | | Welsh Language Commissioner | 3,690 | 3,690 | 3,390 | 3,390 | 3,000 |
| | | **ACTION Total** | **9,378** | **8,815** | **8,649** | **8,649** | **6,964** |
| | | **SPA Total** | **30,425** | **27,364** | **27,248** | **27,248** | **25,645** |
| Delivery Support | Delivery Support | Strategic Communications | -170 | 3,212 | 2,972 | 1,972 | 2,585 |
| | | Education Research & Services | 2,013 | 1,494 | 1,730 | 1,730 | 950 |
| | | **ACTION Total** | **1,843** | **4,706** | **4,702** | **3,702** | **3,535** |
| | | **SPA Total** | **1,843** | **4,706** | **4,702** | **3,702** | **3,535** |
| **Education & Skills Resource DEL** | | | **1,607,588** | **1,494,841** | **1,589,009** | **1,579,609** | **1,580,810** |

**Annex 1**

| SPA | Actions | Budget Expenditure Line (BEL) | 2014-15 Outturn £000 | 2015-16 Forecast outturn as at Period 8 £000 | 2015-16 Supplementary Budget June 2015 £000 | 2015-16 Revised baseline £000 | 2016-17 Draft budget £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CAPITAL BUDGET - Departmental Expenditure Limit** | | | | | | | |
| **Education & Training Standards** | Estate & IT Provision | General Support | 43,021 | 43,021 | 43,021 | 43,021 | 43,021 |
| | | Strategic Investment | 110,809 | 133,513 | 130,813 | 100,813 | 122,747 |
| | | **ACTION TOTAL** | **153,830** | **176,534** | **173,834** | **143,834** | **165,768** |
| | | **SPA Total** | **153,830** | **176,534** | **173,834** | **143,834** | **165,768** |
| **Education & Skills Capital DEL** | | | **153,830** | **176,534** | **173,834** | **143,834** | **165,768** |
| **RESOURCE & CAPITAL BUDGET - Annually Managed Expenditure** | | | | | | | |
| **Economic & Social Wellbeing & Reducing Inequality** | Post-16 Learner Support | Student Loans Capital AME | 356,951 | 412,726 | 421,248 | 449,575 | 449,575 |
| | | Student Loans Revenue AME | -81,317 | -315,257 | -88,444 | -85,376 | -85,376 |
| | | **ACTION Total** | **275,634** | **97,469** | **332,804** | **364,199** | **364,199** |
| | | **SPA Total** | **275,634** | **97,469** | **332,804** | **364,199** | **364,199** |
| **Skilled Workforce** | Educational & Careers Choice | Careers Wales | 12,438 | 6,000 | 6,000 | 6,000 | 6,000 |
| | | **ACTION Total** | **12,438** | **6,000** | **6,000** | **6,000** | **6,000** |
| | | **SPA Total** | **12,438** | **6,000** | **6,000** | **6,000** | **6,000** |
| **Education & Skills AME** | | | **288,072** | **103,469** | **338,804** | **370,199** | **370,199** |
| | | **Education & Skills MEG - SUMMARY** | | | | | |
| | | Resource DEL | 1,607,588 | 1,494,841 | 1,589,009 | 1,579,609 | 1,580,810 |
| | | Capital DEL | 153,830 | 176,534 | 173,834 | 143,834 | 165,768 |
| | | **Total DEL** | **1,761,418** | **1,671,375** | **1,762,843** | **1,723,443** | **1,746,578** |
| | | Annually Managed Expenditure | 288,072 | 103,469 | 338,804 | 370,199 | 370,199 |
| | | **Education & Skills** | **2,049,490** | **1,774,844** | **2,101,647** | **2,093,642** | **2,116,777** |

## Portffolio Addysg a Sgiliau: Asesiad Effaith Integredig (IIA) ar Gyllideb 2016-17

TROSOLWG O'R PORTFFOLIO

1. Mae'r portffolio Addysg a Sgiliau yn cynorthwyo'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg a'r Prif Weinidog i wella safonau a pherfformiad ym maes addysg a sgiliau, a diogelu dyfodol yr iaith Gymraeg.

2. Rydym yn defnyddio dull cyfannol i ariannu addysg. Gyda disgwyl i nifer y bobl ifanc gynyddu yn y tymor canolig, rydym wedi cydnabod pwysigrwydd addysg o ran gwella cyrhaeddiad addysgol a sgiliau ar bob lefel er mwyn helpu i dorri'r cylch anfantais ac anghydraddoldeb, a meithrin dyfodol lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Rydym wedi cydnabod hefyd fod newidiadau i'r boblogaeth, ochr yn ochr â newidiadau technolegol a sectoraidd, yn golygu bod rhaid i ni ystyried hefyd rôl bwysig addysg yng nghyd-destun cynnal dyfodol economi Cymru.

3. Ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol addysg yng Nghymru yw y bydd dysgwyr yng Nghymru yn mwynhau addysg a dysgu sy'n eu hysbrydoli, mewn cymuned addysg sy'n cydweithio ac yn ceisio bod yn ardderchog, ac sy'n mynd ati i hybu cyflawniadau pob plentyn a pherson ifanc.

4. Mae addysg yn newid bywydau, mae'n cynnig cyfle, mae'n galluogi unigolion i newid eu dyfodol, mae'n meithrin cymdeithasau cryfach, mwy goddefgar a chydlynol, mae'n sail i economi gref. Mae addysg yn ffactor allweddol o ran trechu tlodi, yn enwedig yn y tymor hwy, ac mae gwella cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc o gartrefi incwm isel a lleihau'r nifer nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn elfennau canolog o'n Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi.

5. Bydd gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer addysg a sgiliau yn gwneud cyfraniad enfawr at uchelgais y Llywodraeth ar gyfer Cymru a themâu trawsbleidiol Twf a Swyddi, Cyrhaeddiad Addysgol, Cefnogi Plant, Teuluoedd a Chymunedau Difreintiedig, ac Iechyd a Lles. Yn sail i hyn oll mae egwyddor ganolog cynaliadwyedd, yn cynnwys meddwl yn yr hirdymor, atal, cydweithio, integreiddio ac ymgysylltu.

6. Bydd cyflawni'r amcanion strategol canlynol yn cynorthwyo i wireddu'r weledigaeth hon:

   - Gweithlu proffesiynol gwych ag addysgeg gref sy'n seiliedig ar yr hyn sy'n gweithio.

- Cwricwlwm sy’n ddifyr ac yn ddeniadol i blant a phobl ifanc ac sy’n datblygu ynddynt y gallu annibynnol i roi eu gwybodaeth a’u sgiliau ar waith.

- Mae’r cymwysterau y mae pobl ifanc yn eu cyflawni yn ennyn parch yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ac yn basbort llawn hygrededd i’w dysgu a’u cyflogaeth yn y dyfodol.

- Mae arweinwyr addysg ar bob lefel yn gweithio gyda’i gilydd mewn system sy’n gwella ei hun, gan gefnogi a herio’i gilydd i godi safonau ym mhob ysgol.

- Creu gweithlu medrus a chyflogadwy i sbarduno arloesedd a thwf economaidd yn lleol ac yn genedlaethol, gyda chyfleoedd gwerthfawr o safon ar gyfer pob dysgwr.

- Cynorthwyo unigolion, teuluoedd a chymunedau i wella lles economaidd a chymdeithasol a lleihau anghydraddoldeb drwy gyfrwng addysg a hyfforddiant.

- Gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru.

## PROFFIL GWARIANT – DEL ADNODDAU

| Maes Rhaglenni Gwariant | 2015-16 Llinell Sylfaen Ddiwygiedig y Gyllideb Atodol Gyntaf £’000 | Newidiadau i’r gyllideb ac ail-flaenoriaethu £’000 | Cynlluniau Cyllideb Ddrafft 2016-17 £’000 |
|---|---|---|---|
| Safonau Addysg a Hyfforddiant | 926,092 | (25,652) | 900,440 |
| Gweithlu Medrus | 59,703 | (1,641) | 58,062 |
| Gwella Llesiant, Lleihau Anghydraddoldeb a Chynyddu Cyfranogiad | 456,015 | 30,264 | 486,279 |
| Y Gymraeg | 27,248 | (1,603) | 25,645 |
| Cymorth Cyflawni | 3,702 | (167) | 3,535 |

7. Mae’r DEL Adnoddau wedi cynyddu’n gyffredinol i £1.2 miliwn. Mae adolygiad fesul llinell o’r hyn rydym yn ei wario wedi’i gwblhau fel rhan o’r paratoadau ar gyfer y gyllideb hon, yn cynnwys edrych ar le y gallwn ni wneud newidiadau i’r gwaith cyflawni er mwyn bod yn fwy effeithlon neu effeithiol, a lleihau effaith gostyngiadau yn y gyllideb lle maent yn digwydd.

## NEWIDIADAU ALLWEDDOL I WARIANT

8. Mae adolygiadau diweddar o addysg yng Nghymru wedi tynnu sylw at nifer o gryfderau, yn ogystal â nodi nifer o heriau. Mae'r gyllideb hon yn seiliedig ar y dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio a lle gallwn ni, o weithio gyda'n partneriaid, ddylanwadu ar brofiad addysgol, gwybodaeth a sgiliau plant a phobl ifanc er mwyn cael effaith gadarnhaol gydol eu bywydau.

9. Dyma'r prif newidiadau i wariant ym Mhrif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau:

- Wedi cynnal cyllidebau ysgolion yn gyffredinol yn arian gwastad o fewn Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau, mae'r gyllideb gyffredinol ar gyfer ysgolion wedi cynyddu 1% yn fwy na'r newid yng ngrant bloc Cymru.
- Ailflaenoriaethu'r gyllideb ar gyfer ysgolion i ddechrau cyflwyno Cwricwlwm i Gymru: cwricwlwm am oes, gyda £5.4 miliwn o fewn llinell wariant Adolygiad y Cwricwlwm a Her Ysgolion Cymru a £5.65 miliwn yn y llinell wariant datblygu a chefnogi athrawon.
- Grant Amddifadedd Disgyblion – cynnydd o £7.2 miliwn yn y gyllideb
- Her Ysgolion Cymru – cyllid wedi cynyddu £2.9 miliwn i £15 miliwn
- Addysg Uwch – gostyngiad o £41.377 miliwn
- Addysg Ôl-16 – Cynnydd o £5 miliwn
- Dewisiadau Addysgol a Gyrfaol – gostyngiad o £2 miliwn
- Cefnogi Dysgwyr Ôl-16 – cynnydd o £30.299 miliwn
- Cynnal cyllidebau addysg bellach fel rhai arian gwastad

## EFFEITHIAU

### *Cyllidebau Ysgolion*

10. Yn ystod Tymor y Cynulliad rydym wedi sicrhau bod cyllidebau ysgolion wedi cynyddu £105.9 miliwn. Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu'r gyllideb 1% uwchlaw'r newid yng ngrant bloc Cymru yn 2016-17. Mae ein penderfyniad i ddyrannu £39.7 miliwn o gyllid ychwanegol i ysgolion (yn bennaf drwy gyfrwng y Grant Cynnal Refeniw - Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ariannu rheng flaen mewn ysgolion), wedi cael effaith anghymesur o gadarnhaol ar bobl ifanc yn gyffredinol ac mae'n bwysig o dan Erthygl 28 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, fod gan blant hawl i addysg. Bydd y penderfyniad hwn yn cael effaith gadarnhaol hefyd ar drechu tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol drwy fod o fudd i grwpiau a warchodir a chael effaith gadarnhaol sylweddol ar y Gymraeg.

11. Mae tystiolaeth yn dangos bod ymyriadau cynnar yn addysg plentyn yn rhoi gwell cyfle i'r plentyn hwnnw gael lles a llwyddiant yn y tymor hir. Mae gwario ar addysg yn ystod y blynyddoedd ysgol, yn enwedig gyda ffocws ar lythrennedd, rhifedd a lleihau effaith amddifadedd, yn paratoi pobl ifanc i ennill y cymwysterau sydd eu hangen arnynt i gael y swydd maent ei heisiau ac yn lleihau'r camau unioni sydd eu hangen i wella sgiliau'r boblogaeth oedran gweithio neu gostau drwy fudd-daliadau.

12. O fewn y cynnydd cyffredinol, rydym wedi dyrannu £2.9 miliwn yn ychwanegol o'r Gronfa Wrth Gefn fel bod cyllid Her Ysgolion Cymru yn £15 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol. Mae'r rhaglen hon yn cyflymu ac yn crynhoi ein hymdrechion i wella ysgolion, gan ganolbwyntio ar ysgolion uwchradd a chynradd yng Nghymru sy'n wynebu'r her fwyaf o ran amgylchiadau a cham datblygu. Mae canlyniadau'r flwyddyn gyntaf eisoes yn dangos gwelliant, ac er mai megis dechrau ar eu siwrnai i wella mae rhai ysgolion, bydd y rhaglen hon yn dod â budd sylweddol i athrawon, plant a phobl ifanc yr ysgolion hynny, a'r cymunedau ehangach.

13. Rydym wedi ailflaenoriaethu cyllid ysgolion er mwyn rhoi cyllid i weithredu Dyfodol Llwyddiannus a'r Fargen Newydd. Mae'r pedwar diben a nodir ar gyfer y cwricwlwm yn Dyfodol Llwyddiannus (dylai pob plentyn a pherson ifanc allu datblygu yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu hoes; yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith; yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus yng Nghymru a'r byd; yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas) yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r nodau ar gyfer lles economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol hirdymor yng Nghymru a nodir yn y Ddeddf. Bydd cyflawni'r pedwar diben yn cael effaith gadarnhaol ar bob un o'r nodweddion sy'n cael eu gwarchod o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

14. Bydd y cwricwlwm newydd yn annog addysgu a dysgu o safon uwch - gyda phwyslais o'r newydd ar Gymraeg llafar. Mae hyn yn gydnaws â Strategaeth yr Iaith Gymraeg. Bydd y safonau uwch hyn yn effeithio ar gyrhaeddiad yn gyffredinol hefyd, gan fod gwella canlyniadau addysgol yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar leihau tlodi a gwella cyfleoedd bywyd.

15. Yn sgil ailflaenoriaethu cyllid, mae'r Grant Gwella Addysg yn cael llai o arian. Bydd y lleihad hwn yn effeithio ar Awdurdodau Lleol, Consortia ac ysgolion; diben y grant yw galluogi gwelliannau ym mherfformiad ysgolion. Mae'n cefnogi'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol yn ogystal â sicrhau ffocws clir ar ein blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer ysgolion (gwella llythrennedd, rhifedd a lleihau effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol). Felly, gallai hyn effeithio ar bobl sy'n byw mewn tlodi, ac mae'r rhain yn fwy tebygol o gynnwys rhai lleiafrifoedd ethnig nag eraill.

16. Er hynny, mae'r Grant Gwella Addysg yn hyblyg ac mae'r effaith gyffredinol yn dibynnu ar y penderfyniadau a'r blaenoriaethau yn rhanbarthol ac yn lleol yn ogystal â phenderfyniadau mewn ysgolion. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda CLlLC a Consortia i gynyddu'r hyblygrwydd er mwyn lleihau effaith y lleihad mewn cyllid.

17. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn yn benodol am yr hen grantiau cyflawni ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr a lleiafrifoedd ethnig, sydd bellach yn rhan o'r Grant Gwella Addysg ehangach. Mae swm cyffredinol y grant hwn yn gostwng a gallai hyn leihau'r effaith gadarnhaol ar nodwedd warchodedig hil a'r rheini sy'n iau na 16 oed, ond ni ddisgwylir effaith amlwg ar unrhyw nodwedd warchodedig arall. Mae perthynas gref rhwng cefndir economaidd-gymdeithasol a chyrhaeddiad, er enghraifft, mae plant o gefndir Sipsiwn a Theithwyr deirgwaith yn fwy tebygol o gael prydau ysgol am ddim na'r cyfartaledd cenedlaethol. Felly, bydd yr effaith yn cael ei lleihau gan y cyllid ychwanegol a roddir drwy'r grant amddifadedd disgyblion a'r gwaith cyffredinol i wella llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion ac yn y dyfodol gan fanteision y cwricwlwm newydd, y Fargen Newydd ac effaith gweithredu Addysgu Athrawon Yfory.

18. Bwriad y trefniadau a gyflwynwyd drwy'r Grant Gwella Addysg oedd rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol allu mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol. Mae pwysau yn anochel. Mae sawl ardal yng Nghymru wedi parhau i ddarparu gwasanaethau i'r dysgwyr agored i niwed hyn drwy'r gwasanaethau pwrpasol a sefydlwyd diolch i fuddsoddiad sylweddol Llywodraeth Cymru drwy'r trefniadau ariannu blaenorol. Rydym hefyd wedi annog awdurdodau lleol i ystyried sut caiff gwasanaethau eu darparu er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a chynaliadwyedd, ac mae Caerdydd, er enghraifft, wedi dirprwyo mwy o reolaeth dros wasanaethau i ysgolion unigol tra'i fod yn parhau i ddarparu cefnogaeth yn ganolog er mwyn cyflwyno hyfforddiant ac asesu pa mor effeithiol yw ymyriadau. Mae hyn yn gydnaws â nod Llywodraeth Cymru o feithrin mwy o allu mewn ysgolion.

19. Bydd anghenion y dysgwyr hyn yn parhau i gael eu diwallu drwy'r dull cynhwysol sydd gennym yn y maes addysg yng Nghymru, a thrwy raglenni gwella ysgolion. Fodd bynnag, rydym wedi datgan yn ddiamwys bod yn rhaid i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol fynd i'r afael â'u hanghenion ar wahân. Mae consortia wedi gorfod pennu mesurau canlyniadau allweddol yn 2015-16 ac mae gwaith ar y gweill gyda chonsortia i gyflwyno Fframwaith Canlyniadau yn 2016-17 a byddwn yn disgwyl gweld sut bydd anghenion y dysgwyr hyn yn cael eu diwallu.

20. Bydd angen diwallu anghenion ychwanegol ar gyfer ffoaduriaid o Syria. Mae awdurdodau lleol yn cael cyllid eisoes drwy'r Grant Cynnal Refeniw a'r Grant Gwella Addysg i helpu i ddarparu gwasanaethau yn cynnwys cynorthwyo plant i ddysgu iaith a darparu gwasanaethau cwnsela. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio sicrhau bod hyblygrwydd yn y Grant Gwella Addysg fel y gall awdurdodau lleol ymateb i anghenion lleol.

21. Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio arferion da cyfredol i ddatblygu rhestr wirio yn y gobaith y bydd yn helpu ysgolion, ac awdurdodau lleol, wrth ystyried anghenion ffoaduriaid sydd newydd gyrraedd yma. Gellir ei defnyddio i gynorthwyo athrawon i sicrhau bod anghenion

newydd-ddyfodiaid yn cael eu diwallu a bydd yn cael ei hanfon at bob awdurdod cyn dechrau'r tymor newydd ym mis Ionawr.

22. Mae'r Swyddfa Gartref wedi dweud y bydd yn talu am y costau yn y flwyddyn gyntaf fel rhan o'r Cynllun Adleoli Pobl Fregus. Mater i Lywodraeth y DU fydd unrhyw broblemau'n ymwneud â'r cyllid hwn.

***Grant Amddifadedd Disgyblion***

23. Rydym yn darparu £7.2 miliwn ychwanegol yn 2016-17 i gynyddu'r Grant Amddifadedd Disgyblion o £1,050 ar gyfer pob disgybl cymwys yn 2015-16 i £1,150 yn 2016-17. Mae hyn yn adeiladu ar y rhaglen gyfredol sy'n ymateb pwysig i dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol. Rydym yn parhau â'r Grant i gynnwys plant o dan 5 oed hefyd, er mwyn sicrhau bod y plant mwyaf difreintiedig yn gallu cael addysg gynnar o ansawdd yn y blynyddoedd cynnar. Bydd hyn yn cynyddu effaith ataliol y gwariant hwn.

24. Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn gweithio mewn partneriaeth â'r rhaglen Ailysgrifennu'r Dyfodol i godi cyrhaeddiad dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig a lleihau'r blwch rhwng perfformiad dysgwyr difreintiedig a'u cyfoedion mwy cefnog. Mae gwella cyrhaeddiad ein dysgwyr mwyaf difreintiedig yn cynyddu eu dyheadau ac yn lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn torri'r "cylch tlodi" a thrwy gynorthwyo plant a phobl ifanc i gyflawni eu llawn botensial, maent yn magu'r sgiliau a fydd yn eu helpu i gymryd rhan fwy llawn mewn cymdeithas ac yn economi Cymru. Mae'r cohort o blant a phobl ifanc a fydd yn cael budd o'r grant hwn yn cynnwys nifer anghymesur o uchel sydd â nodweddion gwarchodedig, yn cynnwys plant a phobl ifanc ag anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol; Sipsiwn a Theithwyr, tras Affricanaidd, Caribïaidd, Pacistanaidd a Bangladeshaidd; a Mwslemiaid. Felly, bydd cynyddu'r grant yn cael effaith gadarnhaol ar y grwpiau hyn.

***Addysg Ôl-16***

25. Dengys tystiolaeth fod pobl sy'n cymryd rhan mewn dysgu yn fwy tebygol o ymwneud â gweithgareddau cymunedol a chymdeithas sifil. Mae hyrwyddo a chefnogi dysgu ar ôl gadael yr ysgol yn cael effaith uniongyrchol ar iechyd a lles ac yn annog cyfle cyfartal ar gyfer y grwpiau hynny a allai wynebu rhwystrau wrth geisio cymryd rhan fel arall.

26. Mae'n bwysig i ni daro'r cydbwysedd cywir rhwng darparu addysg ôl-16 a'r cyfle i fynd ymlaen i addysg uwch. Mae rhai pobl ifanc dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ifanc dan anfantais yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi os nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae addysg a hyfforddiant ôl-16 fel prentisiaethau yn bwysig er mwyn ymateb

i’r her o leihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ac mae lleihau nifer y bobl hyn yn elfen ganolog o’n Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi.

27. I gydnabod pwynt BAGE ynglŷn â phwysigrwydd addysg o ran mynd i’r afael ag anghydraddoldeb yn achos cyflogaeth a sgiliau a threchu tlodi, rydym wedi diogelu addysg ôl-16 gyda chyllideb arian gwastad, a thrwy ein cytundeb cyllideb 2014, rydym yn dyrannu £5 miliwn er mwyn parhau i gefnogi tua 2,500 o brentisiaethau. Rydym wedi mynd gam ymhellach ac wedi ymrwymo £5 miliwn arall i ariannu cohort newydd o 2,500 o brentisiaethau i gydnabod gwerth y dysgu seiliedig ar waith hwn fel y nodwyd gan BAGE.

28. Trwy ein penderfyniad i ddarparu setliad arian gwastad ar gyfer addysg ôl-16, rydym wedi cydnabod yr effaith ar drechu tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol ac wedi ymrwymo i wireddu ein huchelgais o weld cynifer â phosibl o ddysgwyr, yn cynnwys dysgwyr o grwpiau gwarchodedig, yn gallu meithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer y gweithle. Mae rhan o’r gyllideb yn cynnwys darpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.

***Addysg Uwch***

29. Mae darparu cyllid ar gyfer dysgwyr yn y sector addysg uwch (AU) yn cyfrannu at amcanion lles a’r agenda trechu tlodi drwy helpu i greu a swyddi a chyflogaeth o ansawdd a sicrhau eu bod yn gynaliadwy, annog cyfle cyfartal ac annog mwy o bobl i gyfrannu’n effeithiol at gymdeithas. Darperir cymorth ar gyfer AU cyfrwng Cymraeg drwy’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

30. Bydd gostyngiadau yn y gyllideb yn dod i rym o 1 Ebrill 2016. Er mai Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru sy’n gyfrifol am ddosbarthu ei adnoddau ei hun, mae’r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn cyhoeddi llythyr cylch gwaith blynyddol yn amlinellu blaenoriaethau’r Llywodraeth. Mae disgwyl i’r llythyr gadw’r ffocws ar gryfhau swyddi a thwf yng Nghymru, gan ofyn i sefydliadau weithio’n galetach i wella cydraddoldeb a thegwch ymhellach drwy ehangu mynediad at AU (a, thrwy hynny, gwneud cyfraniad pwysig at drechu tlodi a gwella canlyniadau’r rhai sy’n byw mewn cartrefi incwm isel) a sicrhau dyfodol hirdymor cynaliadwy a llwyddiannus ar gyfer AU yng Nghymru.

31. Byddwn yn ceisio cydweithio i liniaru’r canlyniadau ac rydym yn gwneud buddsoddiadau ychwanegol sylweddol yng ngallu ymchwil y sector AU hefyd drwy Sêr Cymru, gan ddefnyddio cronfeydd strwythurol a rhaglenni’r UE. Mae hyn yn cydnabod rôl gwyddoniaeth mewn arloesedd a datblygu technoleg sy’n gysylltiedig â thwf economaidd a chreu swyddi. Er gwaethaf y gostyngiad yng nghyllideb CCAUC, bydd cynnydd yn y gyllideb cymorth i fyfyrwyr yn Llywodraeth Cymru yn gwrthbwyso hyn.

32. Yn gyffredinol, mae disgwyl i incwm y sector AU yng Nghymru gynyddu wrth i'r newidiadau i ffioedd dysgu barhau i gael eu cyflwyno. Ers 2015-16, mae disgwyl y bydd sefydliadau'n defnyddio peth o'r incwm ychwanegol hwn o ffioedd i gynorthwyo myfyrwyr agored i niwed, yn cynnwys y rheini sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig a chartrefi incwm isel. Yn ei lythyr cylch gwaith ar gyfer 2015-16, gofynnir i CCAUC fonitro a darparu cymorth i sefydliadau wrth iddynt baratoi eu cynlluniau.

33. Mae'n bosibl y gallai'r gostyngiadau arfaethedig yn y gyllideb gael effaith andwyol ar rai grwpiau gwarchodedig, yn cynnwys y rheini o gefndiroedd dan anfantais. Rydym wedi datgan yn glir mai buddsoddiad yn y person ifanc yw'n polisi ffioedd dysgu a dylai'r dewis o sefydliad a chwrs gael ei ddylanwadu gan amgylchiadau unigol yn hytrach na chost ffioedd. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bobl o bob ethnigrwydd, rhyw neu gefndir, gan gynnig ffordd allan o dlodi.

34. Mae CCAUC yn cynnal ei asesiadau effaith ei hun o gynigion ariannu a'r fethodoleg ar gyfer dosbarthu'r cyllid sydd ar gael. Fodd bynnag, gall sefydliadau ddadlau y gallai lleihad yn y cyllid a roddir gan CCAUC effeithio ar eu gallu i gyflwyno rhaglenni sy'n cynorthwyo myfyrwyr agored i niwed.

35. Merched yw mwyafrif y myfyrwyr prifysgol a byddai unrhyw doriadau yn cael effaith anghymesur ar y grŵp gwarchodedig hwn. Yn arbennig, byddai unrhyw effaith andwyol ar y Brifysgol Agored yn effeithio ar fenywod yn arbennig, gan fod cyfran helaeth o fyfyrwyr rhan-amser yn fenywod. Er y bydd llythyr cylch gwaith y Gweinidog yn cadarnhau bod dysgu rhan-amser yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru o hyd, mater i'r CCAUC yw dosrannu'r cyllid sydd ar gael. Yn unol ag adroddiadau annibynnol blaenorol, mae disgwyl i incwm y sector AU yn gyffredinol barhau i fod mewn cyflwr iach er gwaethaf gostyngiadau yng nghyllid grant uniongyrchol CCAUC.

36. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal trafodaethau anffurfiol gyda rhanddeiliaid i asesu effaith bosibl y toriadau hyn ar bobl â nodweddion gwarchodedig a'r rheini sy'n byw mewn tlodi. Maent yn cynnwys trafodaeth gyda CCAUC ac Is-gangellorion pob sefydliad AU yng Nghymru.

37. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio â phartneriaid er mwyn gwella'r ffordd rydym yn cyflwyno ac yn monitro canlyniadau polisïau i leihau effaith toriadau yn y gyllideb ar wasanaethau addysg a sgiliau yng Nghymru.

<u>Tystiolaeth i drosglwyddo i gymorth i fyfyrwyr</u>

38. Mae'r model cyllid myfyrwyr yn cael ei fonitro, ei graffu a'i gytuno gan y Grŵp Defnyddwyr Rhagweld Cymorth Myfyrwyr sy'n cynnwys arweinwyr polisi AU, ystadegwyr AU, a swyddogion CCAUC. Mae'r Grŵp yn cyfarfod bob yn ail fis neu'n amlach os oes angen. Mae modelau cyllid

myfyrwyr yn cael eu llywio gan ffynonellau data cydnabyddedig sy'n cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru a CCAUC - datganiadau ystadegol HESA ac UCAS yn ogystal â dadansoddiadau o dueddiadau gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Mae Grŵp Herio ar y cyd Llywodraeth Cymru/Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn craffu ar ddata'r Cwmni.

39. Wrth benderfynu ar faint o'r grant ffioedd dysgu i'w drosglwyddo, mae Llywodraeth Cymru'n cyfarfod â CCAUC yn rheolaidd i graffu ar a herio rhagdybiaethau'r naill a'r llall ynghylch galw'r dyfodol. Wrth bennu newidiadau eraill i bolisi a allai effeithio ar fodelau cyllid myfyrwyr, mae arweinwyr polisi yn cynnal ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n rhan o'r broses ddeddfwriaethol. Mae Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru, yn cynnwys manylion y cynigion, yn cael ei gyhoeddi ar y fewnrwyd a'i anfon at amrywiaeth eang o bartïon â buddiant a rhanddeiliaid fel y gallant gyflwyno sylwadau arno.

40. Mae rhagdybiaethau ynghylch nifer myfyrwyr, cymhwysedd a galw yn y dyfodol yn seiliedig ar ffynonellau data cydnabyddedig a gaiff eu defnyddio gan bob rhan o'r llywodraeth a'r sector AU, fel y sonnir uchod. Mae'r effaith bosibl ar incwm sefydliadau wedi cael ei hystyried hefyd. Mae'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer incwm yn deillio o ragolygon Swyddfa Archwilio Cymru, Cofnod Cyllid HESA a'r rhagolygon o niferoedd myfyrwyr. Mae disgwyl i incwm i'r sector yng Nghymru o bob ffynhonnell gynyddu'n raddol tan 2020.

41. Mae bod yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr yn seiliedig ar reoliadau sy'n cael eu gwneud bob blwyddyn. Cafodd y pecyn o gymorth i fyfyrwyr sydd ar gael i fyfyrwyr ym mlwyddyn academaidd 2016-17 ei drin drwy broses ddeddfwriaethol ar wahân a pharatowyd asesiad ar wahân o effaith ar gydraddoldeb.

### *Dewisiadau Addysgol a Gyrfaol*

42. Mae Gyrfa Cymru yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd dwyieithog a diduedd ar yrfaoedd i bobl o bob oedran ym mhob rhan o Gymru, ar sail cylch gwaith gwasanaeth blynyddol. Mae'n cynnig gwasanaethau i bobl ifanc sydd mewn perygl o gefnu ar addysg a hyfforddiant, gan helpu i'w hatal rhag bod yn bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

43. Bydd lleihau cyllid Gyrfa Cymru yn cael sawl effaith bosibl, sy'n golygu y bydd angen newid y cylch gwaith blynyddol ar gyfer 2016-17. Darparu'r gwasanaeth statudol sef Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd i blant ysgol a phobl ifanc mewn Sefydliadau Addysg Bellach fydd craidd y ddarpariaeth o hyd.

44. Y grŵp cleientiaid y bydd hyn yn effeithio arno yw holl ddefnyddwyr gwasanaethau Gyrfa Cymru. Pobl ifanc hyd at 18 oed yw prif grŵp cleientiaid gwasanaeth Gyrfa Cymru. Gallai hyn gael effaith negyddol ar

y grŵp cleientiaid 18-24 oed gan nad yw'r grŵp oedran penodol hwn yn cael budd o gyllid gan unrhyw un o raglenni eraill Llywodraeth Cymru fel oedolion di-waith 25 oed a throsodd, neu gleientiaid sy'n colli gwaith yn sgil dileu swyddi.

45. Bydd rhagor o bwysau ariannol ar bob maes ar wahân i'r rhai sydd wedi'u pennu'n feysydd statudol craidd h.y. gwasanaethau i bobl ifanc mewn ysgolion a cholegau AB / pobl ifanc 16 ac 17 oed diwaith, ac mae'n bosibl y bydd angen lleihau gwasanaethau. Bydd unigolion â nodweddion gwarchodedig yn parhau i gael gwasanaethau a chymorth Gyrfa Cymru fel sy'n ofynnol yn y ddeddfwriaeth. Ni ragwelir effaith anghymesur ar bobl â nodweddion gwarchodedig eraill.

46. Er mwyn lleihau effaith gostyngiadau yn y gyllideb, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar wella ac ychwanegu at wasanaethau craidd drwy'r wefan, y llinell gymorth dros y ffôn, sgwrsio ar y we a sianeli cyfryngau cymdeithasol sydd ar gael i bawb, er gallai hyn gael effaith anghymesur ar bobl dlotach neu anabl nad oes ganddynt gymaint o fynediad at TG. Nid oes effaith ar Hawliau Plant gan y bydd cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd ar gael i bawb o hyd, boed ar ffurf wahanol.

47. Bydd lleihau'r gyllideb graidd yn golygu bod rhaid i Gyrfa Cymru dorri niferoedd staff y sefydliad eto. Bydd hyn yn effeithio'n bennaf ar faint o wasanaethau cyfarwyddyd wyneb yn wyneb y gellir eu cynnig i bobl ifanc mewn ysgolion a cholegau, ac i oedolion.

48. Mae cyngor gyrfaoedd yn annog pobl i weithio; mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi ac ar les. Mae rhai pobl ifanc dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ifanc dan anfantais yn fwy tebygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, felly mae'n bosibl y gallai'r toriadau effeithio ar y grwpiau hyn.

49. Bydd Gyrfa Cymru yn parhau i ddarparu gwasanaeth dwyieithog, felly nid oes unrhyw effaith ar y Gymraeg. Rhoddir cyngor ar ddarpariaeth Gymraeg ac anghenion y farchnad lafur leol, yn cynnwys swyddi lle mae cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg.

50. Cafwyd trafodaeth ynghylch amrywiaeth, ehangder a dyfnder y ddarpariaeth a roddir gan Gyrfa Cymru i'w gleientiaid craidd a chleientiaid eraill fel rhan o'r cyswllt rheolaidd â'r uwch dîm rheoli, i sicrhau darpariaeth addas, o safon.

51. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i ddiogelu gwasanaeth gyrfaoedd cenedlaethol, diduedd ar gyfer pobl ifanc ac oedolion ledled Cymru.

52. Mae gan Gyrfa Cymru ei Bolisi a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ei hun a bydd angen adolygu a diweddaru'r dogfennau hyn i ystyried y gostyngiad arfaethedig yn y gyllideb ar gyfer 2016-17.

*Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16*

53. Mae myfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch yn gallu manteisio ar sawl math gwahanol o gymorth yn cynnwys grantiau a benthyciadau. Rydym yn parhau i ddarparu benthyciadau ffioedd dysgu a grantiau seiliedig ar brawf modd ar gyfer costau byw. Mae'r gyllideb ar gyfer grantiau myfyrwyr wedi cynyddu oherwydd bod disgwyl cynnydd yn y galw wrth i nifer y myfyrwyr gynyddu, ac wrth i incwm aelwydydd leihau mewn rhai ardaloedd, sy'n golygu bod mwy o fyfyrwyr islaw'r trothwy i gael cymorth grant. Mae darparu grantiau a benthyciadau yn cefnogi pob dysgwr ond mae'n cael effaith anghymesur o gadarnhaol ar y rheini o gefndiroedd difreintiedig gan fod rhai grantiau'n seiliedig ar brawf modd.

54. Yn sgil y pwysau ariannol cynyddol, comisiynwyd yr Athro Ian Diamond i gynnal adolygiad annibynnol o gyllid addysg uwch a threfniadau cyllid myfyrwyr yn 2014. Un o brif flaenoriaethau'r adolygiad yw ystyried cynaliadwyedd ariannol hirdymor y system Addysg Uwch. Caiff canfyddiadau'r adolygiad eu cyhoeddi yn 2016 a byddant yn helpu i lywio camau nesaf cyllido addysg uwch yng Nghymru. Yn y cyfamser, rydym yn dyrannu £10 miliwn ychwanegol i gydnabod y pwysau ar gymorth i fyfyrwyr yn 2016-17. Bydd hyn yn ein galluogi i barhau i gyflawni ein hymrwymiad parthed ffioedd dysgu.

*Y Gymraeg*

55. Wrth gydnabod rôl bwysig ysgolion o ran sicrhau dyfodol llewyrchus i'r Gymraeg, rydym wedi dyrannu cyllid ychwanegol i ysgolion, sy'n cael ei glustnodi'n bennaf ar gyfer cyllid ysgolion rheng flaen a bydd yn cael effaith gyfartal ar ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg a dwyieithog. Yn arbennig, rydym wedi gweld cynnydd calonogol yn nifer y disgyblion ysgol gynradd sy'n cael eu hasesu mewn Cymraeg iaith gyntaf. Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i "Iaith Fyw", ein strategaeth ar gyfer y Gymraeg, a'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, bydd cyni'n golygu bod angen gwneud dewisiadau anodd a byddwn yn ceisio lleihau'r effaith ar ddyfodol y Gymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith. Yn unol â'r ymrwymiad hwn ac i gydnabod y pwysau sy'n wynebu'r gwaith o ddiogelu dyfodol a threftadaeth y Gymraeg, rydym wedi dyrannu £1.2 miiwn yn 2016-17 i leddfu effaith y gostyngiadau mewn cyllid.

56. Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o'r gwaith o weithredu'r adolygiad o'r Cwricwlwm, ac mae ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn rhan o'r Rhwydwaith o Ysgolion Arloesi sy'n datblygu'r cwricwlwm a'r Fargen Newydd. Mae gwaith yn y maes hwn hefyd yn ariannu gweithgareddau addysgol y tu allan i ysgolion ac rydym wedi gwneud toriadau mewn rhai meysydd lle bydd modd rheoli'r effaith, er mwyn blaenoriaethu gwariant mewn ysgolion.

## **GWELLIANT PARHAUS**

57. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod yr asesiad effaith integredig yn cael ei ystyried wrth wneud pob penderfyniad am y gyllideb. Ar ôl paratoi ar gyfer cylchoedd cyllideb 2014-15, 2015-16 a 2016-17, mae gennym ddadansoddiad llinell sylfaen o effaith newidiadau yn y gyllideb ar gydraddoldeb, hawliau'r plentyn, datblygu cynaliadwy, trechu tlodi a'r Gymraeg. Mae hyn wedi ein galluogi i ystyried yn llawn anfantais economaidd-gymdeithasol, hawliau plant, y Gymraeg a datblygu cynaliadwy, yn ogystal â'r pwyslais ar gydraddoldeb a threchu tlodi. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau ynglŷn â'r gyllideb drwy gydol y flwyddyn ac ar gyfer cyllideb gyntaf tymor nesaf y cynulliad.

58. Caiff asesiadau effaith integredig eu hystyried fel rhan o bob penderfyniad gweinidogol perthnasol. Bydd yr adran yn cryfhau ei chanllawiau ar asesiadau effaith a sut maent yn berthnasol i wahanol fathau o gyngor a roddir i Weinidogion drwy gyngor gweinidogol yn unol â datblygiadau gan dimau canolog Llywodraeth Cymru.